RS7- Elusennau Aelodaeth

(Fersiwn Mawrth 2004)

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad 1

Crynodeb gweithredol 2

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg 5

Diffinio aelodaeth 5

Aelodau dibleidlais 5

Aelodau â phleidlais 5

Rheoli cymysgedd o fathau o aelodaeth 7

Ystyriaethau llywodraethu 9

Manteision cael aelodaeth 9

Problemau llywodraethu posib 10

Strwythurau aelodaeth 11

Ailstrwythuro'r aelodaeth 13

Rhesymau dros ailstrwythuro 14

Pleidleisio o bell 15

Amrywiaeth a chynhwysiad 16

Cymhellion yr aelodaeth 17

Hawliau a chyfrifoldebau aelodau elusennau 17

Cyfrifoldebau aelodau corfforedig 18

Ymyrraeth y Comisiwn Elusennau 19

Rhan B: Arfer orau - rhai canllawiau 23

Arfer orau wrth lywodraethu elusennau aelodaeth 23

Arfer orau wrth reoli'r ddogfen lywodraethol 24

Arfer orau wrth reoli etholiadau 24

Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol 24

Sefydlu lefel y cworwm 25

Arfer orau wrth reoli strwythurau aelodaeth 27

Arfer orau wrth reoli amrywiaeth 27

Arfer orau wrth reoli cydbwysedd pwer 27

Atebolrwydd am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud 28

Pwer ymddiriedolwyr i ddiarddel aelodau 29

Pwer aelodau i ddiswyddo ymddiriedolwyr 29

Penodi ymddiriedolwyr 30

Arfer orau wrth ddatrys anghydfodau 31

Contents

Rhan C: Ystyriaethau cyfreithiol 32

Budd cyhoeddus 32

Hawliau aelodau 32

Rhwymedigaethau pleidleisio aelodau 33

Diarddel aelodau 34

Atodiad A - Technegau ymchwil 35

Atodiad B - Rhestr termau 45

Atodiad C - Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr 46

Atodiad Ch - Llyfryddiaeth 53

Diolchiadau 55

Cyflwyniad

Gall aelodaeth o elusen gynnig gwir fanteision i waith yr elusen ac i'r gymdeithas yn fwy cyffredinol. Pan fydd aelodau elusen yn cyfrannu'n weithgar at lunio agenda ac amcanion eu helusen, mae'r corff ymddiriedolwyr yn cael ei adfywio ac mae ei atebolrwydd i'w aelodau yn cael ei wella. Gall elusennau aelodaeth sy'n cael eu rhedeg yn effeithiol alluogi unigolion i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol hefyd a gallant gyfrannu at gyflawni agenda'r Llywodraeth i gynyddu cyfranogiad unigol mewn cymdeithas sifil.[1]

Mae elusen aelodaeth sy'n cael ei rhedeg yn effeithiol yn bosib dim ond pan fydd aelodau yn defnyddio eu hawliau pleidleisio er lles gorau'r elusen a phan fydd y corff ymddiriedolwyr a'r strwythur llywodraethu yn caniatáu ar gyfer rheolaeth briodol yr aelodaeth. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gall fod angen newid strwythur aelodaeth yr elusen wrth i'r elusen ddatblygu a thyfu.

Mae'n rhaid i bob elusen sicrhau ei chydbwysedd ei hun rhwng cyfraniad yr aelodaeth a chyfrifoldeb cyffredinol ymddiriedolwyr am redeg yr elusen. Mae'r adroddiad yn disgrifio nodweddion elusen aelodaeth effeithiol. Mae'n asesu i ba raddau y mae modd datrys neu osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig ag elusennau aelodaeth trwy lywodraethu gwell a gweithrediadau'r aelodaeth, ac mae'n egluro pryd fydd y Comisiwn Elusennau yn ymwneud â'r mater.

[1] Nid aelodaeth o elusen yw'r unig ffordd y gall pobl gyfrannu at gymdeithas sifil, fodd bynnag, a bydd nifer o bobl yn gwneud hynny trwy fod yn rhan o sefydliadau aelodaeth anelusennol eraill megis cymdeithasau anghorfforedig.

Crynodeb gweithredol

Mae aelodaeth yn fodel llywodraethu cyffredin yn y sector ac mae'n ymddangos y bydd ei phoblogrwydd yn parhau. Mae gan ychydig dros hanner o'r elusennau a arolygwyd ar gyfer yr adroddiad strwythur aelodaeth o ryw fath. Mae gan 44% o elusennau a arolygwyd aelodau sy'n gallu pleidleisio er mwyn dylanwadu ar ddull llywodraethu'r elusen ac, felly, dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Trwy estyn y canlyniadau hyn ar draws y gofrestr, mae'r Comisiwn Elusennau yn amcangyfrif bod strwythur aelodaeth gan tua 80,000 o elusennau ac felly byddant yn cael eu heffeithio gan rai neu bob un o'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn.

Roedd ein gwaith ymchwil yn dangos bod y mwyafrif llethol o elusennau gydag aelodau yn ystyried rôl eu haelodaeth yn un cadarnhaol, gyda 84% o elusennau gydag aelodau unigol ac 81% gydag aelodau corfforedig yn datgan bod eu haelodau yn gwneud cyfraniad defnyddiol at y gwaith o redeg yr elusen. Roedd elusennau gydag aelodaeth gorfforedig yn nodi cymorth ariannol, arbenigedd, dylanwadu ar ddull llywodraethu a chyswllt â chyrff perthnasol eraill fel rhesymau pam bod eu haelodau o fudd. Roedd aelodau unigol yn cael eu gwerthfawrogi mwy am eu rôl cyfranogol a'u barn amrywiol. Roedd y lleiafrif o elusennau a deimlai nad oedd eu haelodau yn ddefnyddiol wedi nodi nifer isel o aelodau'n pleidleisio yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen fel y prif reswm dros eu barn.

Gall elusennau aelodaeth, fel pob elusen, gael trafferthion os nad ydynt yn rhoi'r sylw priodol i'w trefniadau llywodraethu. Mae'r posibilrwydd o broblemau'n codi yn fwy mewn elusennau aelodaeth, fodd bynnag, oherwydd gall nifer y bobl sy'n ymwneud â'r mater olygu bod y trefniadau llywodraethu yn fwy cymhleth i'w rheoli. Weithiau bydd safbwyntiau gwahanol yn codi a all, os na chânt eu rheoli'n dda, amharu ar weinyddiad hwylus yr elusen a golygu bod adnoddau elusennol yn cael eu gwastraffu. Dangosodd dadansoddiad o sampl o waith achosion y Comisiwn Elusennau fod mwy o achosion yn cael eu hagor ar gyfer elusennau aelodaeth na sefydliadau eraill, gan gynnwys cyfran fwy o achosion sy'n ymwneud ag anghydfodau mewnol.

Mae achosion o anghydfod yn y lleiafrif, fodd bynnag. Mae'r rhan fwyaf o'r 80,000 o elusennau aelodaeth sydd ar y gofrestr yn cael eu rhedeg yn dda, gyda'r aelodaeth a'r corff ymddiriedolwyr yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac er lles gorau'r elusen a'i defnyddwyr neu fuddiolwyr.

Dengys ein canfyddiadau fod elusennau aelodaeth yn cael buddiannau amrywiol o'u haelodau, ac mae'r buddiannau hyn yn cynnwys:

- gwella tryloywder ac atebolrwydd y bwrdd ymddiriedolwyr;
- gwerthfawrogi anghenion buddiolwyr yn well;
- gwella dylanwad yr elusen o fewn y sector elusennol, gan roi pwysigrwydd i rôl eiriolaeth;

- darparu cyfleoedd codi arian; a
- darparu ffynhonnell gyson o ymddiriedolwyr.

Fodd bynnag, mae profiad y Comisiwn Elusennau yn dangos bod yr ychydig elusennau hynny sy'n cael problemau gyda'u haelodaeth yn fwy tebygol o gael un neu fwy o'r nodweddion canlynol:

- Nid yw ymddiriedolwyr yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag aelodau eu helusen.
- Nid yw aelodau elusennau yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r elusen.
- Nid oes strwythurau llywodraethu digonol i reoli perthynas yr elusen â'i haelodau.
- Mae'r corff ymddiriedolwyr yn rhwystro'r aelodau rhag cyfrannu, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol.
- Nid oes digon o amrywiaeth yn aelodaeth yr elusen felly mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn hunanbarhaol neu'n amharod i newid ac nid yw'n cynrychioli buddiolwyr posib yr elusen.
- Mae aelodau neu ymddiriedolwyr yn camddefnyddio gweithdrefnau a hawliau pleidleisio yn fwriadol.
- Mae trefniadau gweinyddol gwan yn arwain at broblemau fel cyhuddiadau bod etholiadau'n cael eu cynnal ar sail rhestrau aelodaeth anghywir neu broblemau gyda threfnu cyfarfodydd â chworwm.

Mae crynodeb o argymhellion yr adroddiad i'w weld isod.

Argymhellion i ymddiriedolwyr elusennau

Dylai ymddiriedolwyr:

- roi sylw gofalus i'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag aelodau'r elusen, yn arbennig:
  - sicrhau bod hawliau pob gwahanol fath o aelod a'u rôl o fewn yr elusen wedi'u datgan yn glir;
  - sicrhau bod rôl yr aelodau corfforedig yn eglur;
  - sicrhau bod dulliau effeithiol o gyfathrebu â phob aelod;
  - sicrhau bod y rhestr aelodaeth yn cael ei chadw'n gyfoes;
  - sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu'n gyson, gan gynnwys nifer yr aelodau sydd ganddynt a lefel y cworwm;
- ystyried a yw'n briodol cynnwys cymal yn eu dogfen lywodraethol sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau aelodau ac ystyried a fyddai unrhyw ddogfennau gweithdrefnol ychwanegol yn ddefnyddiol;
- ystyried a yw eu haelodaeth yn wirioneddol gynrychioliadol o'r grwp y mae'n bwriadu ei wasanaethu ac, os nad ydyw, ystyried ffyrdd o gyrraedd y rheiny sydd wedi'u gwahardd;

- bod yn ymwybodol o fuddiannau posib cyfryngu a, lle y bo'n briodol, ystyried a fyddai'n arf defnyddiol ar gyfer datrys anghytundeb o fewn yr elusen.

Argymhellion i aelodau elusennau

Dylai aelodau elusennau:

- sicrhau bod yr elusen yn esbonio'n glir beth mae'r rôl aelodaeth yn ei olygu, gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau'r rôl;

- ymarfer eu hawl i bleidleisio er budd yr elusen y maent yn aelod ohoni;

- dilyn penderfyniadau sy'n cael eu cymryd mewn ffordd deg ac o fewn rheolau'r elusen.

Argymhelliad i gyrff mantell a chyrff ymgynghorol

- Dylai cyrff mantell, proffesiynol ac ymgynghorol wneud gwaith pellach i gefnogi elusennau aelodaeth a'u haelodau trwy gynhyrchu canllawiau arfer orau.

Argymhelliad i'r Swyddfa Gartref (Cyfarwyddiaeth Cymunedau Gweithgar)

- Dylai canfyddiadau'r adroddiad hwn, a photensial aelodau elusen i gyfrannu at gymdeithas sifil, gael eu defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau Gweithgar yn ei gwaith i hybu gwirfoddoli a meithrin adfywiad sifil.

Gweithredu gan y Comisiwn Elusennau

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn adolygu ei gyhoeddiadau ac arweiniad er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad hwn a bydd hefyd yn ystyried a fyddai cymal enghreifftiol sy'n amlinellu rhwymedigaethau aelodau o werth i elusennau aelodaeth.

Mae'r adroddiad hwn ar elusennau aelodaeth wedi cael ei baratoi drwy ddefnyddio tystiolaeth o gofnodion y Comisiwn Elusennau a thrwy archwilio ein ffeiliau achosion gan gynnwys dadansoddiad o hanesion achos 2900 o elusennau dros gyfnod o bedair blynedd. Hefyd cysylltwyd â sawl elusen a chynhaliwyd arolwg mawr trwy'r post. Mae manylion y fethodoleg ymchwil i'w gweld yn atodiad A.

Rhennir yr adroddiad hwn yn dair adran. Mae Rhan A yn ystyried ac yn adrodd ar ein profiad gwaith achosion a'r arolwg o elusennau aelodaeth. Mae Rhan B yn darparu canllawiau ac awgrymiadau ar gyfer elusen aelodaeth sy'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae Rhan C yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud ag agweddau cyfreithiol ar aelodaeth.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Diffinio aelodaeth

> "*Heb ein haelodau dyn ni ddim yn bodoli.*"
>
> Ymateb i'r arolwg

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar rôl aelodau elusennau. Mae'n ystyried strwythurau llywodraethu elusennau gan gynnwys elusennau gydag aelodau sy'n gallu dylanwadu ar ddull llywodraethu elusen (elusennau â phleidlais) a'r rheiny gydag aelodau na allant wneud hynny (aelodau dibleidlais). Fodd bynnag, gan fod llywodraethu yn faes allweddol i'r Comisiwn Elusennau, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar aelodau â phleidlais.

Gall aelodaeth â phleidlais gael dylanwad cadarnhaol iawn ar weinyddiad elusen, gan weithredu fel ffordd o gynnwys unigolion yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymdeithas a chynnig modd i elusennau gynrychioli'r rheiny sydd â buddiant breintiedig ynddynt.

Aelodau dibleidlais

Mae'r Comisiwn Elusennau yn amcangyfrif bod gan tua 80,000 o elusennau strwythur aelodaeth. Mae'r mwyafrif helaeth o'r elusennau hyn yn gweithredu'n dda ac mae eu haelodaeth o werth go iawn i'r elusen a'i gwaith. Fodd bynnag, mae profiad gwaith achosion y Comisiwn Elusennau yn dangos bod dryswch ynghylch pa aelodau yn union sydd â hawliau pleidleisio o fewn elusen yn rheswm cyffredin am yr anawsterau y gall elusennau aelodaeth eu hwynebu o bryd i'w gilydd. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod nhw a'u haelodaeth yn gallu gwahaniaethu rhwng yr aelodau hynny sydd â phleidlais a'r rheiny sydd heb bleidlais. Yn yr adroddiad hwn, gwahaniaethir rhwng aelodau unigol a chorfforedig, fel a ddiffinnir isod, a chefnogwyr, ffrindiau, aelodau cyswllt, tanysgrifwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac unrhyw un arall a all gael ei alw'n 'aelod' yn ei elusen, ond nid oes ganddynt unrhyw rôl o ran pennu cyfansoddiad a chyfeiriad yr elusen. Yn gyffredinol gall y math hwn o 'aelod' fod yn wirfoddolwr, yn rhoddwr neu'n fuddiolwr.

Dangosodd ein harolwg fod 'aelodau' dibleidlais gan 20% o elusennau a defnyddir amrywiaeth o dermau i'w disgrifio.[2]

Aelodau â phleidlais

Gall elusen gall aelodau â phleidlais corfforedig neu unigol, neu'r ddau. Diffinnir y rhain isod.

Aelodau unigol

Diffinnir aelod â phleidlais unigol elusen gan y nodweddion canlynol:

Unigolyn sy'n gallu effeithio ar ddull llywodraethu elusen trwy bleidleisio yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol elusen ac sy'n bodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer aelod fel a bennwyd yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Mae unigolion sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwr, cyfarwyddwr neu unrhyw rôl arall ar y corff llywodraethu heb eu cynnwys yn y diffiniad hwn o aelod.

Dangosodd data ein harolwg fod gan 39% o elusennau aelodau â phleidlais unigol.

Mae aelodaeth unigol yn dibynnu ar faint yr elusen i ryw raddau, a'r elusennau

[2] Fe welwch y termau a ddefnyddir yn Atodiad A.

mwyaf (incwm o fwy na £1 miliwn) yw'r lleiaf tebygol o gael aelodau unigol. Mae aelodaeth unigol gan lai nag un rhan o dair o'r elusennau hyn.

Mae rhywfaint o gydberthynas rhwng prif weithgaredd elusen ac a oes aelodaeth unigol ganddi neu beidio. Mae elusennau sy'n darparu gwasanaethau yn fwyaf tebygol o gael aelodaeth unigol (48%), a ddilynir yn agos gan y rheiny sy'n darparu eiriolaeth (47%) a'r rheiny sy'n noddi ac yn gwneud gwaith ymchwil (45%). Elusennau sy'n darparu cymorth ariannol yw'r lleiaf tebygol o gael aelodaeth unigol (20%). Mae maes gwaith elusen hefyd yn effeithio ar ei dewis o gael aelodau unigol neu beidio, ac elusennau sy'n gweithio ym meysydd anabledd yw'r mwyaf tebygol (57%), a ddilynir gan y rheiny sy'n gweithio ym maes y celfyddydau a diwylliant (52%). Mae Atodiad A yn rhoi mwy o fanylion am y canfyddiadau hyn.

Prif fantais aelodaeth a nodwyd gan elusennau sy'n gysylltiedig ag anabledd oedd bod eu haelodau yn gallu dylanwadu ar y ffordd y mae'r elusen yn cael ei rhedeg. Ar gyfer elusennau sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant roedd y pwyslais ar aelodau'n cymryd rhan yng ngwaith yr elusen. Elusennau sy'n darparu gwasanaethau ac eiriolaeth oedd y mwyaf awyddus i sicrhau bod aelodau mewn sefyllfa i roi gwybod i'r elusen a yw gwasanaethau'n parhau i fod yn berthnasol i anghenion buddiolwyr neu beidio.

Roedd gan elusennau a arolygwyd gyfartaledd cymedrig o ychydig llai na 2000 o aelodau unigol. Mae nifer yr aelodau unigol mewn elusen yn amrywio'n fawr, fodd bynnag, gyda llai na 10 aelod mewn 13% o elusennau a mwy na 1000 mewn cyfran tebyg (14%). Gweler tabl 1 atodiad A am fanylion pellach.

Nifer yr aelodau unigol ym mhob elusen



Sylfaen (Pob elusen sydd ag aelodau unigol): 591

Aelodau corfforedig

Mae gan 11% o'r elusennau a arolygwyd aelodau â phleidlais corfforedig. Diffinnir y rhain fel a ganlyn:

Mae aelodau corfforedig yn cynnwys cwmnïau, awdurdodau lleol a chyrff neu sefydliadau cyhoeddus eraill lle mae gan gynrychiolydd enwebedig yr hawl i bleidleisio yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen ar ran y sefydliad y maent yn ei gynrychioli. Byddai'r categori hwn hefyd yn cynnwys unrhyw elusennau anghorfforedig a sefydliadau dielw eraill lle mae cynrychiolydd yn aelod â phleidlais elusen arall.

Elusennau sy'n gweithredu fel cyrff mantell neu adnoddau yw'r mwyaf tebygol o gael aelodau corfforedig (21%), a ddilynir gan elusennau sy'n noddi neu'n gwneud gwaith ymchwil (17%) a'r rheiny sy'n darparu eiriolaeth (14%). Mae aelodau corfforedig hefyd yn fwy cyffredin mewn elusennau sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd a threftadaeth (25%) neu ddatblygiad economaidd a chyflogaeth (24%), er i'r olaf gael ei seilio ar nifer gweddol fach o atebwyr.

Dangosodd ein harolwg fod amrywiaeth fawr yn nifer yr aelodau corfforedig mewn elusennau. Nifer yr aelodau corfforedig ar gyfartaledd yw 163, gyda dim mwy na phum ym mron hanner yr elusennau (47%), tra roedd nifer fawr iawn o aelodau gan leiafrif ohonynt, sy'n codi'r cyfartaledd cyffredinol.

Rheoli cymysgedd o fathau o aelodaeth

Dengys profiad gwaith achosion y gall problemau godi pan fydd mwy nag un math o aelodaeth gan elusen ond nid yw wedi diffinio rôl pob math o aelod yn glir. Dangosodd gwaith ymchwil hefyd bod tuedd ymysg elusennau tuag at ailstrwythuro mewn achosion lle yr oedd yr aelodaeth yn tyfu er mwyn iddynt allu adnabod yn haws y rheiny a oedd yn aelodau â phleidlais.

Roedd gan 66% o elusennau a arolygwyd un math o aelod yn unig, unigolion fel arfer (44%), a dim ond 4% o elusennau aelodaeth nododd bod ganddynt bob un o'r tri math a welwyd yn y gwaith ymchwil hwn (h.y. corfforedig, unigol a dibleidlais):

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Cyfuniad o fathau o aelodau



Sylfaen (Pob elusen sydd ag aelodau): 774

Mae'r achos canlynol yn dangos y problemau a all godi pan fydd diffyg eglurder ynghylch a yw aelodau'n gallu pleidleisio neu beidio.

Roedd y Comisiwn Elusennau yn ymwneud ag elusen maint canolig pan nad oedd grwpiau gwrthwynebol o fewn yr elusen yn gallu datrys dryswch ynghylch hawliau pleidleisio. Aeth yr elusen i drafferthion yn rhannol oherwydd iddi fethu â chadw cofnodion digonol o'i haelodau. Nid oedd yr ymddiriedolwyr yn cadw rhestr aelodaeth gyfredol a chafodd manylion aelodau â phleidlais eu cynnwys gyda manylion unigolion a oedd yn gefnogwyr neu'n ffrindiau'r elusen. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd adnabod pwy oedd â hawl i bleidleisio. Cafodd y sefyllfa ei chymhlethu ymhellach gan y ffaith nad oedd dogfen lywodraethol yr elusen yn cynnwys darpariaeth aelodaeth wedi'i diffinio'n glir.

Cafodd y problemau a gododd o fewn yr elusen eu dwyn at sylw'r Comisiwn Elusennau oherwydd cwyn ynghylch ethol ymddiriedolwyr. Ar ôl asesu'r sefyllfa, cynghorodd y Comisiwn Elusennau y dylid dosbarthu pob tanysgrifwyr adnabyddadwy fel aelodau a dylent allu mynychu a phleidleisio yn y cyfarfodydd cyffredinol blynyddol (ac felly bod yn gymwys i gael eu hethol i'r corff ymddiriedolwyr). Ar ôl i'r rhestr aelodaeth ddiwygiedig gael ei pharatoi, gallai'r ymddiriedolwyr gynnal etholiad wedi'i weinyddu'n briodol.

Canlyniad yr achos hwn oedd paratoi Cynllun y Comisiynwyr a oedd yn diwygio dogfen lywodraethol bresennol yr elusen ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a oedd wedi cyfrannu at y broblem, gan gynnwys yr angen i'r elusen gadw rhestr aelodaeth gyfoes y gallent gyfeirio ati er mwyn cael gwybod pwy oedd â hawl i bleidleisio.

- Dylai ymddiriedolwyr roi sylw gofalus i drefniadau llywodraethu eu helusen, a sut y caiff y trefniadau hyn eu cyfathrebu i'w haelodau, er mwyn sicrhau bod hawliau pob gwahanol fath o aelod a'i rôl o fewn yr elusen yn glir

- Dylai ymddiriedolwyr ystyried a yw'n briodol gynnwys cymal yn eu dogfen lywodraethol sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau aelodau.

- Dylai aelodau elusennau sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r hawliau a'r cyfrifoldebau a gynigir gan eu haelodaeth.

Ystyriaethau llywodraethu

Gall elusen sydd â strwythur aelodaeth gynnig manteision real a sylweddol. Gall aelodau elusennau, a fydd ymysg buddiolwyr yr elusen neu a fydd yn rhannu budd yn lles y buddiolwyr hynny weithiau, ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae'r elusen yn eu gwneud sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymuned. Gallant hefyd helpu cadw corff llywodraethu'r elusen yn ffres, yn atebol ac yn gredadwy. Mae hyn yn bosib dim ond os yw:

- strwythur llywodraethu'r elusen yn caniatáu i'r aelodaeth gael ei rheoli yn y ffordd orau bosib;

- aelodaeth yr elusen yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol o'r rheiny y mae'r elusen yn bwriadu eu gwasanaethu;

- aelodau'r elusen yn defnyddio eu dylanwad mewn ffordd gyfrifol.

Manteision cael aelodaeth

> "*Ein haelodau yw ein bywyd. Maen nhw'n cynnig cymorth, cyngor a phrofiad.*"
>
> Ymateb i'r arolwg

Dywedodd 84% o'r elusennau a arolygwyd gydag aelodau unigol bod yr aelodau hynny yn gwneud cyfraniad defnyddiol at weinyddiad yr elusen. Roedd y prif resymau am hyn yn gysylltiedig â'u hamrywiaeth barn, dylanwad, arbenigedd a chyfranogiad.

Roedd aelodaeth gorfforedig hefyd yn cael ei hystyried yn nodwedd gadarnhaol i elusennau. Dywedodd 81% o'r elusennau hynny gydag aelodau corfforedig eu bod yn gwneud cyfraniad defnyddiol at yr elusen. Tynnodd elusennau sylw at fanteision cymorth ariannol a chyffredinol, arbenigedd, dylanwad dros weinyddu'r elusen a chysylltiad â chyrff perthnasol fel rhesymau pam yr oedd aelodau corfforedig o fudd.

Roedd y patrwm hwn yn weddol gyson ar gyfer pob elusen aelodaeth, beth bynnag fo'i maint, gweithgaredd a maes gwaith.

Dywedodd lleiafrif o elusennau gydag aelodau unigol a chorfforedig nad oedd eu haelodaeth yn ddefnyddiol. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros y farn hon oedd mai dim ond nifer fach o'r aelodau oedd yn ymarfer eu pleidlais yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen. Unwaith eto, roedd yr ymateb hwn yn gyson ar draws pob math o elusennau a ddywedodd nad oedd aelodaeth yn ddefnyddiol.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Trwy ein gwaith ymchwil gwelwyd bod nifer o fanteision yn gysylltiedig ag aelodaeth. Roedd aelodau elusen yn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymddiriedolwyr elusen am anghenion buddiolwyr, gan ddarparu adborth a safbwyntiau amrywiol;
- cadw'r bwrdd ymddiriedolwyr yn ffres ac yn atebol, ac yn helpu sicrhau gonestrwydd a thryloywder;
- gwella gallu'r elusen i ddylanwadu ar yr amgylchedd cymdeithasol neu wleidyddol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo;
- gweithredu fel cronfa o wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr posib.

> *"Mae cael aelodaeth unigol yn sicrhau nad yw'r ymddiriedolwyr yn rheoli'r elusen heb gysylltiad ag eraill ac mae'n darparu ychydig o archwiliad mewnol o'u gweithrediadau a'u penderfyniadau."*
>
> Ymateb i'r arolwg

Roedd yr elusennau a arolygwyd yn ystyried bod pob math o aelodau, gan gynnwys y rheiny sydd heb bleidlais, o fudd i'r sefydliad oherwydd eu bod:

- yn darparu cyfleoedd codi arian;
- yn rhoi eu hamser a'u hymroddiad i amcanion y sefydliad; ac
- yn helpu codi proffil yr elusen.

Fe welwch restr lawn o'r rhesymau yr oedd elusennau wedi'u rhoi pan ofynnwyd iddynt a oedd aelodau unigol neu gorfforedig yn ddefnyddiol neu beidio yn atodiad A, tablau 12 ac 13.

Problemau llywodraethu posib

Gall elusennau aelodaeth, fel pob elusen arall, fynd i drafferthion os nad yw sylw priodol yn cael ei roi i'w trefniadau llywodraethu. Mewn elusen aelodaeth, mae cymhlethdod ychwanegol oherwydd bod penderfyniadau'n cael eu rhannu rhwng yr ymddiriedolwyr a'r aelodau. Mewn rhai achosion gall hyn olygu mwy o bosibilrwydd ar gyfer anghytuno ynglyn â phenderfyniadau. Dengys ein profiad gwaith achosion bod y posibilrwydd hwn o anghytuno yn cynyddu yn yr elusennau hynny lle mae teimladau cryf am y materion y mae'r elusen yn ymwneud â hwy.

Mae achosion ychydig yn fwy tebygol o gael eu hagor ar gyfer elusennau aelodaeth nag elusennau heb aelodaeth. Edrychwyd ar hanesion achos 1450 o elusennau gydag aelodaeth a'r un nifer o elusennau a ddewiswyd ar hap. Dros gyfnod o bedair blynedd, agorwyd cyfanswm o 3182 o achosion i'r ddau grŵp hyn o elusennau. Roedd 61% o'r achosion hyn yn ymwneud ag elusennau gydag aelodaeth.[3]

Er bod y pum achos mwyaf cyffredin yr un peth ar gyfer y ddau grŵp (gorfodi, newidiadau i'r ddogfen lywodraethol, ceisiadau cyffredinol am wybodaeth, dirwyn i ben a newidiadau i amcanion) roedd yr achosion a gofnodwyd fel cwynion ac anghydfodau mewnol yn fwy cyffredin yn yr elusennau hynny sydd ag aelodaeth na'r rheiny sydd heb aelodaeth, sydd efallai'n adlewyrchu cymhlethdod strwythurau aelodaeth.[4]

[3] Cafodd mathau o achosion eu harchwilio ar gyfer pob elusen a nododd bod aelodaeth yn ffynhonnell incwm iddynt mewn arolygon a gynhaliwyd yn ystod 2003 ac am nifer tebyg o elusennau a ddewiswyd ar hap.

[4] Fel arfer bydd gorfodi'n cynnwys achosion lle mae elusennau wedi methu â chyflwyno cyfrifon neu ddogfennau pwysig eraill i ni.

Gall anghydfodau ac anghytundebau rhwng ymddiriedolwyr ac o fewn yr aelodaeth fod yn gostus a chymryd cryn amser, a golygu gwyro adnoddau elusennol.

> *"[Dylid gweithredu] er mwyn atal elusennau rhag gwastraffu arian sy'n amodol ar ymddiriedolaethau elusennol wrth ddilyn cyfreithiad sy'n ymwneud ag anghydfodau mewnol."*
>
> Barnwr yr Uchel Lys

Dengys profiad gwaith achosion y Comisiwn Elusennau bod dogfen lywodraethol annigonol a diffyg gweithdrefnau llywodraethu clir yn ymwneud â rheoli aelodau wrth wraidd nifer o broblemau llywodraethu. Yn aml iawn mae gan elusennau sy'n methu â datrys eu problemau aelodaeth ddarpariaethau llywodraethu gwael a fyddai wedi darparu man cyfeirio gwrthrychol ar gyfer datrys anghydfod.

Dengys profiad y Comisiwn Elusennau y gall elusennau gael problemau gyda'u haelodaeth:

- pan nad yw ymddiriedolwyr yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau cyfreithiol tuag at aelodaeth eu helusen;
- pan nad oes strwythurau llywodraethu digonol i reoli'r berthynas â'r aelodaeth;
- pan fydd y bwrdd ymddiriedolwyr yn rhwystro'r aelodaeth rhag cymryd rhan;
- pan fydd aelodau neu ymddiriedolwyr yn camddefnyddio gweithdrefnau a hawliau pleidleisio yn fwriadol;
- pan nad oes digon o amrywiaeth yn yr aelodaeth ac felly nid yw'r bwrdd yn cynrychioli anghenion buddiolwyr, yn hunanbarhaol neu'n amharod i newid.
- Dylai ymddiriedolwyr weithredu cyfres o ddogfennau gweithdrefnol i lenwi manylion nad oes modd eu cynnwys yn ymarferol o fewn y ddogfen lywodraethol, gan roi sylw arbennig i'r rheolau a'r arferion sy'n ymwneud ag aelodaeth.
- Dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o fanteision posib cyfryngu a, lle y bo'n briodol, ystyried a fyddai hyn yn arf ddefnyddiol ar gyfer datrys anghydfod.

Strwythurau aelodaeth

Mae dadansoddi gwaith achosion wedi datgelu amrywiaeth eang o strwythurau aelodaeth a hawliau pleidleisio ymysg elusennau. Cadarnhaodd yr arolwg fod elusennau aelodaeth yn amrywio o sefydliadau mawr gyda miliynau o aelodau o bell i sefydliadau bach gyda rhai aelodau-ddefnyddwyr sy'n cymryd rhan yn rheolaidd ar lefel leol.

Gall gwreiddiau elusen ddylanwadu ar ei hanghenion, ei strwythur ac i ba raddau y mae'r aelodau yn ymwneud â phennu gweinyddiad yr elusen. Yn aml bydd y Comisiwn Elusennau yn cofrestru sefydliadau sydd wedi dechrau bywyd fel grwpiau cymunedol lleol, er enghraifft grŵp cymorth. Gall elusennau sydd wedi dechrau yn y ffordd hon fod yn amharod i newid strwythur eu sefydliad yn gyfan gwbl ac, o ganlyniad, maent yn gweithredu eu haelodaeth trwy gyfrwng strwythur casgliadol lle mae'r ymddiriedolwyr yn is-set o'r aelodau, neu heb eu gwahaniaethu o gwbl.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Mae'r achos canlynol yn enghraifft o elusen gyda dogfen lywodraethol sy'n caniatáu i bob aelod gael dweud ei ddweud yn y ffordd y caiff y sefydliad ei weinyddu.

Roedd elusen fawr yr ymwelwyd â hi fel rhan o'n rhaglen Ymweliad Adolygu wedi'i threfnu fel bod pob aelod hefyd yn ymddiriedolwr gan felly ei gwneud hi'n amhosib adnabod corff gwneud penderfyniadau penodol. Cafodd y mater ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod prif weithgaredd yr elusen yn canolbwyntio ar gynorthwyo unigolion agored i niwed a'r buddiolwyr hynny oedd yr aelodau.

Roedd hyn yn cynnig manteision oherwydd gallai'r aelodau gyfrannu eu profiad uniongyrchol at ddatblygu gwasanaethau gan ennyn ymdeimlad o berchnogaeth ac ymrymuso. Fodd bynnag, roedd yr elusen yn delio â symiau sylweddol o adnoddau elusennol ac roeddent wedi llunio contractau ac ymgymryd â meysydd risg uchel posib eraill a oedd yn gofyn am gorff ymddiriedolwyr diffiniedig.

Cynghorodd y Comisiwn Elusennau ei bod yn amhriodol i bob buddiolwr fod yn aelod o'r elusen oherwydd byddan nhw hefyd yn gweithredu fel ymddiriedolwyr yr elusen, ac argymhellodd y Comisiwn y dylai'r elusen ystyried ailstrwythuro.

Yn y pen draw, penderfyniad i'r aelodau yw hwn, ac erbyn hyn maen nhw'n ystyried eu strwythur trefniadaethol a'r mater aelodaeth/ymddiriedolwr yn unol â'r argymhellion arfer dda a wnaed.

Mae ein cyhoeddiad Cynnwys Defnyddwyr: Buddiolwyr sy'n dod yn ymddiriedolwyr (CC24) yn rhoi sylwadau pellach.

Ail fath o aelodaeth sydd i'w weld yn gyffredin yn ein gwaith achosion yw elusen sydd â phresenoldeb cenedlaethol a chyrff cyswllt lleol annibynnol. Gall y rhain fod yn ganolfannau gweinyddol neu gallant gael eu cofrestru fel elusennau eu hunain a chael corff ymddiriedolwyr ar wahân. Ymdrinnir â rhai o'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â'r math hwn o aelodaeth yn ein cyhoeddiad Cydweithredu a Chyfuniadau (RS4) ac fe welwch ystyriaethau arfer dda perthnasol yn Rhan B.

Mae manteision y strwythur hwn yn cynnwys ei allu i hwyluso cyfranogiad a chyfathrebu ar lefel leol a'r cyfleoedd i gyrff cyswllt lleol dderbyn cyllid o'u cymunedau. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Elusennau hefyd yn gweld achosion lle mae nifer aelodau cyrff lleol yn amrywio yn sylweddol, a gall hyn arwain at gynrychiolaeth anghyfartal ar lefel genedlaethol. Os mai dyma yw'r achos, boed yn un real neu'n un canfyddedig, bydd ymddiriedolwyr yn aml yn ailstrwythuro eu system bleidleisio er mwyn i bob aelod gael un bleidlais ar lefel genedlaethol.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall aelodaeth gael ei hailstrwythuro er mwyn cynrychioli safbwyntiau ei haelodaeth yn well.

Mae elusen genedlaethol fawr iawn newydd ailstrwythuro ei phroses gwneud penderfyniadau mewn ymateb i deimlad cyffredinol nad oedd ei strwythur pleidleisio yn darparu ar gyfer cynrychioli barn aelodau yn gywir. Roedd yr aelodau yn anhapus ac roedd hyn wedi bygwth arwain at amharu ar waith yr elusen.

Mae'r elusen yn cynnwys corff cenedlaethol sy'n bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau, gyda changhennau lleol sy'n cyflwyno ei gwasanaethau. Yn y system bleidleisio flaenorol, pleidleisiodd yr aelodau ar benderfyniadau allweddol mewn cyfarfodydd cangen lleol a chafodd un bleidlais 'unedig' o bob cangen ei chyfrif yn y CCB cenedlaethol.

Nid oedd yr elusen a'i haelodau yn teimlo bod hyn yn llwyddo i gyflwyno barn gwir gynrychioliadol yn y CCB oherwydd y gwahaniaeth yn nifer yr aelodau sy'n pleidleisio yn y canghennau lleol. Ar ôl ymgynghori â'r aelodau, penderfynodd yr ymddiriedolwyr newid y strwythur pleidleisio er mwyn i bob aelod gael pleidlais unigol.

- Dylai ymddiriedolwyr adolygu eu darpariaethau aelodaeth yn gyson er mwyn sicrhau mai'r darpariaethau hyn yw'r mwyaf effeithiol i'r elusen o hyd.

Ailstrwythuro'r aelodaeth

Mae'n bosib y bydd elusen sy'n adnabod angen i ailstrwythuro yn ceisio cymorth y Comisiwn Elusennau i gael caniatâd i newid ei dogfen lywodraethol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd o fewn yr elusen.

O'r 1450 o hanesion achos elusennau gydag aelodau a archwiliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, roedd y rhan fwyaf o'r achosion wedi cael eu hagor dim ond er mwyn derbyn newidiadau i'r ddogfen lywodraethol, amcanion neu faterion tebyg eraill. Mae'r ffaith bod y Comisiwn Elusennau wedi cymryd rhan dim ond er mwyn derbyn penderfyniadau yn awgrymu bod y rhan fwyaf o elusennau aelodaeth yn sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda, sy'n gallu rheoli unrhyw ailstrwythuro heb unrhyw broblemau.

Yr achosion a welwn yn y Comisiwn Elusennau yn aml yw'r rheiny lle mae'r ymddiriedolwyr heb newid eu dogfen lywodraethol i ddarparu ar gyfer y newidiadau i'r elusen a'i gwaith. Yn lle hynny mae'r elusen wedi parhau i weithredu gyda darpariaethau amhriodol neu annigonol ac o ganlyniad mae'r ymddiriedolwyr wedi wynebu problemau na allant eu datrys trwy ddefnyddio dogfen lywodraethol bresennol yr elusen.

Mae methu â newid darpariaeth cworwm anymarferol yn esiampl gyffredin o hyn. Gweler yr adran ar Sefydlu lefel y cworwm.

Fel arfer bydd rhaid i aelodaeth yr elusen gymeradwyo'r penderfyniad i ailstrwythuro felly mae'n hanfodol eu bod yn deall yn llawn y cymhellion a'r manteision disgwyliedig a ddaw yn sgîl y newidiadau.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Mae'r canlynol yn enghraifft o sefyllfa lle yr oedd yr aelodau yn gwrthwynebu ailstrwythuro elusen oherwydd y teimlent y byddai'n cyfyngu ar eu gallu i ddylanwadu ar gyfeiriad yr elusen.

Roedd elusen fawr yn awyddus i symleiddio ei dull llywodraethu a gweinyddu trwy ailstrwythuro ei haelodaeth. Er bod yr ymddiriedolwyr o blaid y newidiadau arfaethedig, a fyddai'n golygu corff ymddiriedolwyr llai a mwy effeithlon, teimlai rhai o'r aelodau y byddai hyn yn lleihau eu cyfraniad democrataidd at benderfyniadau yn ymwneud â strategaeth a llywodraethu. Nid dyma'r achos mewn gwirionedd, ond ni chafodd yr aelodau lawer o wybodaeth am y newid ac roedd hyn wedi creu drwgdybiaeth ymysg yr aelodaeth, a benderfynodd wrthwynebu'r symudiad.

Roedd yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y pryderon hyn, gan newid eu cynlluniau ychydig a gwneud yn siwr bod yr aelodaeth yn ymwybodol o hyn. Trwy sicrhau bod yr aelodau yn ymwybodol o'r rhesymau y tu ôl i'r cynigion, roedd yr ymddiriedolwyr wedi datrys y mater ac yn gallu gweithredu'n llwyddiannus erbyn hyn.

- Dylai ymddiriedolwyr ystyried ailstrwythuro eu haelodaeth os nad yw'n effeithiol mwyach. Mae'n rhaid i ailstrwythuro fod yn fuddiol ac er lles gorau'r elusen a dylai ymddiriedolwyr gyfathrebu â'u haelodau ar y mater hwn.

Rhesymau dros ailstrwythuro

Dangosodd ein gwaith ymchwil nad yw nifer sylweddol o aelodau mewn elusennau sydd ag aelodaeth fawr yn ymarfer eu hawl i bleidleisio yn aml iawn ond yn hytrach yn cadw eu haelodaeth er mwyn derbyn gwybodaeth yn unig. Aelodau'n methu ag ymarfer eu hawl i bleidleisio oedd y prif reswm a nodwyd gan elusennau a arolygwyd a ddywedodd nad oedd eu haelodaeth yn gwneud cyfraniad defnyddiol at weinyddiad eu helusen.

Gall aelodau elusennau gael eu rhannu'n dri grŵp yn aml:

- y rheiny sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau yn y sefydliad;
- y rheiny y dibynnir arnynt i ddarparu cymorth mwy cyffredinol, er enghraifft, trwy ddarparu cyllid neu drwy wirfoddoli;
- y rheiny sy'n cadw eu haelodaeth er mwyn derbyn gwybodaeth neu fanteision eraill.

Roedd y rheiny a ymatebodd i'n harolwg yn pwysleisio y gall nifer fawr o aelodau fod yn ddefnyddiol o ran amrywiaeth a darparu profiadau. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Elusennau yn gweld y problemau posib canlynol pan fydd elusen yn rheoli aelodaeth fawr â phleidlais:

- methu cyrraedd cworwm mewn cyfarfodydd;
- prosesau ethol sy'n gymhleth ac yn gostus; ac
- anawsterau o ran cyfathrebu'n effeithiol gyda nifer fawr o aelodau.

Mae nifer o ystyriaethau gweinyddol arfer orau a all helpu i'w gweld yn Rhan B.

Yn ein harolwg gwelwyd bod elusennau canolig a mawr yn fwy tebygol o gael aelodaeth ddibleidlais, a hefyd elusennau sydd wedi cofrestru hyd at bum mlynedd yn ôl. Mae hyn yn ategu tystiolaeth ein gwaith achosion ac arsylwadau anectodaidd bod elusennau'n mabwysiadu strwythur dwy haen pan fyddant yn tyfu. Gall fod yn fuddiol i rai elusennau

ailddosbarthu'r rhan honno o'u haelodaeth fel 'cefnogwyr' neu 'ffrindiau' er mwyn iddynt barhau i dderbyn y manteision y mae eu hangen arnynt a pharhau i gymryd rhan yn yr elusen ond nid ydynt yn ymwneud â'r drefn bleidleisio. Fodd bynnag, nid yw'r math hwn o ailstrwythuro yn addas ar gyfer delio â gwrthwynebiad posib o'r tu mewn i'r aelodaeth. Nid yw'n rheswm dilys ychwaith i elusen gyfyngu ar faint y mae eu haelodau pleidleisio yn cael eu cynrychioli'n llawn.

Cyn ailstrwythuro trefniadau llywodraethu'r elusen, dylai ymddiriedolwyr ystyried a ddylent wneud mwy o ymdrech i annog aelodau i bleidleisio yn lle hynny.

Pleidleisio o bell

Fel ymateb i nifer isel yn mynychu CCB, bydd rhai elusennau yn cysylltu â'r Comisiwn Elusennau i newid eu dogfen lywodraethol er mwyn caniatáu ar gyfer ffurfiau eraill o bleidleisio sy'n golygu y gall pobl sy'n methu mynychu'r CCB bleidleisio o bell.

Os yw pleidleisio trwy ddirprwy neu bleidleisio electronig yn cael ei ddefnyddio, mae angen monitro'r broses yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r system yn cael ei chamddefnyddio. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod aelodau yn deall sut y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif os nad ydynt hwy eu hunain yn pleidleisio.

Mae'r achos hwn yn dangos sut y defnyddir pleidleisio o bell i helpu gydag anawsterau i gael cworwm.

Roedd dogfen lywodraethol elusen gydag aelodau sy'n ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn bennaf yn gofyn am gworwm o chwarter o'r aelodaeth o leiaf i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol blynyddol neu eithriadol. Roedd hyn yn gyfystyr â rhyw 200 o aelodau. Nid oedd y ddarpariaeth hon wedi cael ei bodloni ers peth amser oherwydd natur ymarferol trefnu'r cyfarfod a olygai nad oedd y pwyllgor a etholwyd yn y CCB diweddaf yn ddilys.

Fel arfer byddai'r Comisiwn Elusennau yn cadarnhau bod pwyllgor yn ddilys trwy Orchymyn er mwyn galluogi'r elusen i barhau i gael ei rheoli'n gyfreithiol, ac yna argymell bod yr ymddiriedolwyr yn diwygio eu dogfen lywodraethol i ostwng lefel y cworwm. Fodd bynnag, yn yr achos arbennig hwn, roedd y ddogfen lywodraethol yn mynnu bod diwygiadau'n cael eu pasio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol yn y CCB. Unwaith eto y broblem oedd cael cyfarfod â chworwm i basio diwygiad o'r fath.

Ni lwyddodd yr ymddiriedolwyr i gael hyd i leoliad a fyddai'n addas ar gyfer grŵp mawr o bobl ag anghenion arbennig. Yn ogystal, er bod y ddogfen lywodraethol yn caniatáu ar gyfer pleidleisio o bell, roedd yn gwahardd yn benodol bleidleisio drwy ddirprwy mewn perthynas â newidiadau i'r ddogfen lywodraethol.

Cafodd y mater ei ddatrys gan y Comisiwn trwy baratoi Cynllun rheoleiddio llawn newydd i ostwng lefel y cworwm mewn cyfarfodydd cyffredinol i 25 aelod a hefyd caniatáu ar gyfer pleidleisiau trwy'r post neu drwy ddirprwy a all gael ei defnyddio i ddiwygio'r Cynllun yn y dyfodol.

- Dylai ymddiriedolwyr adolygu eu rhestr aelodaeth bob hyn a hyn a gwneud yn siŵr ei bod yn gyfoes.

- Dylai ymddiriedolwyr sy'n canfod fod lefel eu cworwm yn anymarferol geisio datrys y sefyllfa cyn gynted â phosib.

Amrywiaeth a chynhwysiad

Dengys ein gwaith ymchwil fod aelodaeth amrywiol yn ffactor llwyddiant hanfodol o ran gwireddu manteision aelodaeth (amrywiaeth barn oedd un o'r prif resymau a nodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn pam mae aelodaeth yn ddefnyddiol).

Gall aelodaeth gynnig modd i unigolion gael eu cynnwys mewn cymdeithas sifil dim ond os yw'r aelodaeth yn gynrychioliadol ac yn gynhwysol.

> *"Mae aelodaeth amrywiol iawn gennym o bob oedran...mae hyn yn cynnig modd i ni geisio safbwyntiau gwahanol ac yn ein cadw yn berthnasol ac yn gyfoes."*
>
> Ymateb i'r arolwg

Mewn rhai achosion, nid yw adrannau o'r gymuned a allai fanteisio o fod yn aelod o'r elusen wedi'u cynnwys ynddi, naill ai oherwydd eu bod wedi'u gwahardd yn swyddogol rhag ymuno neu oherwydd y cânt eu hannog i beidio ag ymuno oherwydd y teimlant nad yw'r elusen 'iddyn nhw'. Dylai ymddiriedolwyr geisio osgoi cyfyngu ar yr aelodaeth. Os yw'r aelodau hefyd yn fuddiolwyr yna mewn rhai amgylchiadau gall cyfyngiadau ar yr aelodaeth gael effaith andwyol ar fudd cyhoeddus ac felly statws yr elusen.

Mae ein cyhoeddiadau Natur Gyhoeddus Elusennau (RR8) a Deddf Elusennau Adloniadol 1958 (RR4) yn rhoi esboniad mwy manwl o'r egwyddor budd cyhoeddus.

Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall elusen fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod ei haelodaeth yn amrywiol ac yn gynhwysol.

Aeth staff y Comisiwn Elusennau i ymweld ag elusen aelodaeth genedlaethol fawr iawn a chanfod ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywedodd yr elusen nad oedd wedi cael unrhyw broblemau â'i haelodaeth erioed. Ond o ganlyniad i arolwg diweddar ymysg ei haelodau gwelwyd eu bod nhw, fel bwrdd ymddiriedolwyr yr elusen, yn groenwyn yn bennaf. Mae'r elusen yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau cynnal i grŵp arbennig o bobl ac mae hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'u hanghenion ac yn ymgyrchu ar eu rhan. Felly mae'n bwysig i'r elusen ei bod yn deall anghenion pawb sy'n rhan o'r grŵp hwnnw, a bod mwy o amrywiaeth o bobl yn cael eu hannog i ymuno.

Mae'r elusen yn rhedeg ymgyrch 'ymestyn allan' parhaus sy'n ceisio cyfathrebu â phobl a allai elwa o fod yn aelod o'r elusen ond sydd heb eu cynnwys ynddi ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys mesurau i foderneiddio delwedd yr elusen ac adlewyrchu anghenion gwahanol adrannau o'r gymuned. Mae'r elusen yn cydnabod bod hyn yn bwysig ar gyfer ei chryfder ei hunan fel sefydliad yn ogystal ag i'r bobl y mae'n ceisio eu helpu.

Mae'n arbennig o bwysig bod elusennau sy'n ymgyrchu yn adlewyrchu barn eu haelodaeth yn briodol a bod eu haelodaeth yn adlewyrchu barn y rheiny a gaiff eu heffeithio gan y materion y byddant yn ymgyrchu arnynt. Os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi ceisio barn eu haelodau yn ffurfiol ar fater arbennig, mae'n rhaid iddynt fod yn ffyddiog bod eu neges yn cyfateb â barn yr aelodau a bod cyfle ganddynt i gynnig sylwadau ar negeseuon sy'n cael eu cyfleu ar eu rhan.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn gweld nifer o achosion lle mae diffyg amrywiaeth yn yr aelodaeth yn arwain at homogenedd yn y corff ymddiriedolwyr. Mae cyhoeddiad y Comisiwn Elusennau Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS1) yn edrych ar y mater o amrywiaeth mewn cyrff ymddiriedolwyr ac yn awgrymu strategaethau ar gyfer gwella'r maes hwn.

- Dylai ymddiriedolwyr ystyried a yw eu haelodaeth yn wir gynrychioliadol o'r grŵp y mae'n ceisio ei wasanaethu ac, os nad ydyw, gweithredu mesurau i gyrraedd y rheiny sydd wedi'u gwahardd.

Cymhellion yr aelodaeth

Mae amrywiaeth o gymhellion gan bobl dros fod yn aelod o elusen, Mae manteision aelodaeth a ddaeth i'r amlwg yn y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys:

- mynediad i wybodaeth neu gymorth;
- ymdeimlad o gyfrannu at gymdeithas a chymryd rhan yn y gymdeithas;
- manteision sylweddol, er enghraifft ffioedd mynediad rhatach i safleoedd hanesyddol neu ardaloedd arbennig.

Mae ffactorau cymhelliant yr aelodaeth yn cael effaith ar lefel y cyfranogiad y bydd pob aelod o'r elusen yn awyddus i'w chael. Elusennau a arolygwyd sy'n darparu cyngor yw'r rhai sydd â'r nifer cyfartalog uchaf o aelodau unigol (4893), o'i gymharu â 410 i'r rheiny sy'n darparu cyfleusterau a 572 i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau. Mae hyn yn awgrymu bod nifer o aelodau yn cymryd rhan er mwyn cael mynediad i wybodaeth yn bennaf ac yn gyfranwyr anweithredol yn hytrach na gweithgar yn yr elusen.

> "*Mae ein haelodau yn gwneud cyfraniad defnyddiol iawn at weinyddu'r elusen, nid lleiaf trwy gynorthwyo wrth godi arian ond nid ydynt yn chwarae rhan weithgar yn ei llywodraethu corfforedig.*"
>
> Ymddiriedolwr elusen

Hawliau a chyfrifoldebau aelodau elusennau

Bydd anghydfodau'n codi yn gyffredin pan fydd y corff ymddiriedolwyr a/neu yr aelodaeth wedi'i rannu neu pan fydd y corff ymddiriedolwyr yn anghytuno ac mae pob ochr yn ceisio dylanwadu ar y system bleidleisio aelodaeth i gefnogi eu hachos.

Mae tua 50% o'r achosion o anghydfod y bydd y Comisiwn Elusennau yn delio â hwy yn cynnwys elusen gydag aelodaeth. Yn yr amgylchiadau hyn bydd y Comisiwn Elusennau yn gweithio er mwyn cael hyd i ateb i'r elusen a'i rhoi ar y trywydd iawn unwaith eto. Byddwn yn edrych am dystiolaeth i gefnogi symudiad at benderfyniad ac yn defnyddio'r holl

wybodaeth sydd ar gael i ddeall materion sensitif sy'n ymwneud â chredoau diwylliannol, gwleidyddol a chrefyddol arbennig.

Wrth ymarfer eu hawl i bleidleisio a dylanwadu ar ddull llywodraethu elusen, dylai aelodau elusennau sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio gweinyddiad yr elusen neu ei henw da. Mae'r Comisiwn Elusennau o'r farn bod rheidrwydd ar yr aelodaeth i ddefnyddio eu hawliau ac ymarfer eu pleidlais er lles gorau'r elusen y maent yn aelod ohoni. Mae Rhan C yn darparu'r manylion cyfreithiol.

Mae gweithredu fel ymddiriedolwyr cyfrifol elusen aelodaeth yn gofyn am y gallu i ganiatáu i'r aelodau ymarfer eu hawl i herio penderfyniadau allweddol tra'n eu rhwystro rhag camddefnyddio'r hawl honno. Mae'r cydbwysedd pwer rhwng ymddiriedolwyr ac aelodau yn cael ei archwilio yn fanylach yn Arfer orau wrth reoli cydbwysedd pŵer.

- Dylai aelodau elusennau ymarfer eu hawl i bleidleisio er lles yr elusen y maent yn aelod ohoni.

- Dylai aelodau elusennau fod yn barod i dderbyn penderfyniadau sy'n cael eu cymryd mewn ffordd deg ac sydd o fewn rheolau'r sefydliad, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'u dewisiadau personol eu hunain.

Cyfrifoldebau aelodau corfforedig

"Maen nhw'n cynorthwyo'r ymddiriedolwyr eraill i ddyfarnu grantiau sy'n ategu amcanion y corff y maent yn ei gynrychioli a hefyd yn helpu rhwystro ein hadnoddau cyfyngedig rhag cael eu gwastraffu. Maen nhw'n darparu persbectif ehangach i agwedd yr ymddiriedolwyr."

Ymateb i'r arolwg

Gofynnir i'r Comisiwn Elusennau egluro cyfrifoldebau aelodau corfforedig mewn nifer o achosion. Mae hyn yn digwydd yn aml mewn perthynas ag elusennau neuadd bentref. Yn aml iawn bydd nifer o sefydliadau yn defnyddio'r cyfleuster a byddant hefyd yn aelodau corfforedig yr elusen neuadd bentref.[5] Pan fyddant yn gwneud penderfyniadau fel aelodau'r elusen neuadd bentref, gall cynrychiolwyr y sefydliadau defnyddwyr ei chael hi'n anodd gwahanu eu hunain o flaenoriaethau eu sefydliad.

Gall aelodau corfforedig yn arbennig fod yn aneglur ynghylch eu rôl fel aelod o elusen a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chynrychioli barn y rheiny yn y sefydliad y maent yn eu cynrychioli. Er enghraifft, os yw awdurdod lleol yn aelod corfforedig fel arfer bydd yn enwebu un person i fynd i gyfarfodydd aelodau. Gallai'r unigolyn hwn deimlo y dylai gynrychioli lles gorau'r awdurdod lleol, er enghraifft mewn perthynas â phenderfyniad cyllido. Yn yr un modd, gall ymddiriedolwyr deimlo eu bod yn ofynnol iddynt roi mwy o bwys i farn aelod corfforedig. Dylai'r posibilrwydd ar gyfer gwrthdaro buddiannau yn y sefyllfa hon gael ei reoli'n ofalus.

Gweler ein harweiniad ar y we Canllaw i wrthdaro buddiannau ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau a fydd ar gael yn wanwyn 2004.

"Mae'n rhoi syniad da i'r awdurdod lleol am y materion sy'n wynebu'r elusen. Ond ni fyddem am gael mwy o aelodau corfforedig - mae un yn ddigonol."

Ymateb i'r arolwg

[5] Diffinnir aelodau corfforedig yn y rhestr termau.

Mae rôl aelod corfforedig yr un fath ag aelod unigol gan mai ei brif ddyletswydd yw i'r sefydliad y mae'n gweithredu iddo fel aelod.

Dylai aelodau corfforedig fod yn gwbl glir ynghylch eu rôl a'u rhwymedigaethau mewn achosion fel hyn oherwydd, yn gyffredin, bydd cynrychiolwyr o sefydliadau defnyddwyr yn cael eu hethol i'r corff ymddiriedolwyr yn ddiweddarach. Mae rhwymedigaethau ymddiriedol ymddiriedolwyr yn gliriach na rhwymedigaethau aelodau ond bydd nifer o gynrychiolwyr corfforedig yn parhau i gamddeall eu dyletswydd ymddiriedol pan fyddant yn gweithredu fel ymddiriedolwr.[6] Bydd yr anawsterau sy'n codi wrth reoli'r achos hwn ac achosion eraill sy'n ymwneud â neuaddau pentrefi yn cael eu hystyried yn adroddiad rheoleiddiol y Comisiwn Elusennau a gaiff ei gyhoeddi erbyn diwedd 2004. Mae ein cyhoeddiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau (CC3) yn disgrifio rôl a rhwymedigaethau ymddiriedolwyr o ran gweithredu er budd yr elusen y maent yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar ei chyfer.

- Dylai ymddiriedolwyr fod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod rôl aelodau corfforedig yn cael ei deall.

Ymyrraeth y Comisiwn Elusennau

Pwrpas cyffredinol y Comisiwn Elusennau yw sicrhau bod cronfeydd elusennol yn cael eu defnyddio'n effeithiol a sicrhau unplygrwydd elusennau. Os nad yw elusen yn cael ei rhedeg yn effeithiol neu os yw mewn anghydfod cyhoeddus mae'n faes o bryder i'r Comisiwn Elusennau.

Bydd unigolion sy'n gysylltiedig ag elusennau aelodaeth yn cysylltu â staff y Comisiwn Elusennau yn aml mewn perthynas ag anghydfod mewnol rhwng gwahanol grwpiau o fewn yr elusen. Ni all y Comisiwn Elusennau ymhel â gweinyddiad yr elusen. Felly nid yw'n rhan o rôl y Comisiwn Elusennau i ddatrys anghydfodau o fewn elusennau pan fydd ymddiriedolwyr wedi gweithredu o fewn cwmpas eu pwerau a'u dyletswyddau, mewn ffordd onest ac mewn ewyllys da.

Gall y Comisiwn Elusennau ymyrryd:

- pan fydd pryderon ynghylch camreoli difrifol, er enghraifft methu â bodloni gofynion y gyfraith elusennau;
- os oes tystiolaeth glir o gamarfer bwriadol;
- os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu yn unol â darpariaethau'r ddogfen lywodraethol;
- os yw gweinyddiaeth yr elusen wedi chwalu i'r fath raddau fel bod yr elusen yn methu â gweithredu'n effeithiol;
- os oes perygl clir y bydd enw'r elusen yn cael ei bardduo; neu
- os yw camgymeriadau gonest wedi creu problemau (e.e. gweithredu ar benderfyniadau cyfarfodydd heb gworwm) sy'n golygu bod angen i ni awdurdodi'r camau y mae angen eu cymryd i ddatrys y sefyllfa;
- os yw'r defnydd o bwerau'r Comisiwn Elusennau yn gymesur â hyn.

Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn pryderu am safbwyntiau didwyll ond gwahanol os yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu'n briodol. Gall materion o bolisi neu weinyddiaeth gael eu trafod o fewn yr ymddiriedolaeth neu'r aelodaeth ond

[6] Diffinnir ymddiriedol yn Atodiad B.

mae'n rhaid iddynt gael eu datrys o fewn ac yn unol â thelerau dogfen lywodraethol yr elusen. Gall aelodau sy'n anghytuno â chyfeiriad yr elusen y maent yn aelod ohoni weithredu newid trwy ymarfer eu hawl i bleidleisio, naill ai mewn CCB neu trwy alw CCE (sy'n gofyn am nifer digonol o aelodaeth i gytuno arno), neu drwy roi eu hunain mewn sefyllfa i gael eu hethol i'r pwyllgor. Os nad yw unrhyw un o'r camau hyn yn creu canlyniad boddhaol i aelod anfodlon, dylent dderbyn barn y mwyafrif neu ystyried gadael. Dylid cyflwyno cwyn i'r Comisiwn Elusennau dim ond os oes amheuon a sail dda iddynt neu dystiolaeth o gamarfer.

Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd pan na fydd y Comisiwn Elusennau yn ymyrryd yn cynnwys:

- anghytuno rhwng ymddiriedolwyr neu rhwng swyddogion a/neu aelodau a all ac a ddylai gael ei ddatrys gan yr unigolion eu hunain;

- anghytuno o fewn elusennau crefyddol sy'n ymwneud â materion crefyddol fel doethuriaeth.

Yn yr amgylchiadau hyn mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gael hyd i ateb gyda'u haelodaeth a dylent gysylltu â'r Comisiwn Elusennau dim ond os ydynt yn cynnig gweithredu sy'n golygu bod angen caniatâd y Comisiwn Elusennau.

Am fwy o wybodaeth ar sefyllfa'r Comisiwn Elusennau, cyfeiriwch at ein cyhoeddiad Y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddio.

Mae'r canlynol yn enghraifft o achos lle yr oedd ymyrraeth y Comisiwn Elusennau yn hanfodol er mwyn rhoi'r elusen yn ôl ar dir cadarn a diogelu ei hasedau.

Roedd anghydfodau rhwng dau grwp cystadleuol mewn elusen fach gydag aelodaeth fawr wedi golygu bod yr elusen wedi cael ei rhannu'n ddau sefydliad ar wahân mewn gwirionedd dan enw un elusen ac un rhif cofrestru. Yn ogystal roedd rhestrau aelodaeth ar wahân i'r ddau grŵp. Roedd pob ochr yn gweithredu'n annibynnol ac wedi cynnal eu hetholiadau eu hunain ers tro. Roedd yn amhosib adnabod yr ymddiriedolwyr rheoli a benodwyd yn briodol oherwydd roedd cofnodion yr elusen yn anghyflawn neu ar goll. Roedd yr heddlu wedi cael ei alw oherwydd gwrthdaro a gwrthdystiadau afreolus ar y ddwy ochr.

Ymyrrodd y Comisiwn Elusennau â'r mater ar gais un o'r partïon cystadleuol a'r awdurdod lleol. Y mater pwysicaf i'w ddatrys oedd ethol corff ymddiriedolwyr a benodwyd yn briodol. Felly penderfynodd y Comisiwn Elusennau baratoi Gorchymyn dan adran 26 Deddf Elusennau 1993 yn awdurdodi cynnal etholiadau. Roedd y Gorchymyn yn ystyried materion y ddwy ochr ac yn datgan y byddai Bwrdd Ethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ochr yn cael ei sefydlu cyn y gellid cynnal unrhyw etholiadau. Roedd hyn wedi sicrhau y byddai cynrychiolaeth deg o'r ddwy ochr. Penodwyd yr awdurdod lleol i oruchwylio'r etholiadau fel y Goruchwyliwr Etholiadau. Roedd cyflogi corff amhleidiol i gael y gair olaf wedi helpu sicrhau y byddai'r broses ethol yn ddemocratig ac yn deg.

Ar ôl i'r etholiadau gael eu cynnal yn llwyddiannus ac roedd corff ymddiriedolwyr a benodwyd yn briodol yn weithredol daeth sefyllfa'r elusen yn fwy sefydlog. Canlyniad yr achos hwn oedd canlyniad boddhaol i sefyllfa a oedd wedi parhau ers sawl blwyddyn ac a oedd yn cael effaith niweidiol ar yr elusen.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Ni fydd y Comisiwn Elusennau yn gallu ymyrryd er mwyn datrys materion sy'n ymwneud ag athrawiaeth grefyddol neu ymwneud â goruchwylio neu redeg CCB ar ran elusen. Mae'n bosib y byddwn yn gallu awgrymu sefydliadau eraill a all helpu.

Os oes angen i'r Comisiwn ymyrryd, gallwn weithredu mewn un o'r ffyrdd canlynol.

Ond mae pob achos aelodaeth yn unigryw ac mae'r achosion a ddisgrifir isod yn enghreifftiau o sut yr ydym wedi gweithredu yn y gorffennol ac nid yw'n cynrychioli'r camau y byddwn yn eu cymryd o anghenraid ym mhob achos tebyg.

Mae tri phrif ffordd y bydd y Comisiwn Elusennau yn ymyrryd, heblaw darparu arweiniad:

1. paratoi Gorchymyn dan adran 26 Deddf Elusennau 1993;

2. darparu Cynllun sy'n disgrifio darpariaethau llywodraethu newydd; neu

3. agor Ymchwiliad dan adran 8 Deddf Elusennau 1993.

Paratoi Gorchymyn dan adran 26 y Ddeddf Elusennau

Yn y chwe mis o Fehefin 2003, paratôdd y Comisiwn Elusennau 482 o Orchmynion dan adran 26 y Ddeddf Elusennau. Paratowyd 4% o'r rhain i reoleiddio etholiadau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal CCB. Gall y sefyllfa hon godi pan fydd y corff ymddiriedolwyr wedi cael ei ethol mewn cyfarfod heb gworwm ac felly nid yw wedi'i awdurdodi i alw cyfarfod i unioni'r sefyllfa.

Cysylltwyd â'r Comisiwn Elusennau mewn achos o anghydfod rhwng aelodau elusen maint canolig ynghylch ethol ei chorff ymddiriedolwyr. Cwynodd aelodau bod rhai unigolion wedi cael eu "dewis" ar gyfer swyddi ymddiriedolwyr yn hytrach na mynd trwy etholiad a gynhaliwyd yn briodol yn y CCB. Yn yr un ffordd, roedd ymddiriedolwyr wedi cael eu diswyddo. O ganlyniad, roedd amheuon ynghylch dilysrwydd corff ymddiriedolwyr yr elusen, yn enwedig gan fod y cyfarfod dan sylw heb gworwm. Roedd cyhuddiadau o ymddygiad afresymol gan aelodau amrywiol o'r ddwy ochr wedi gwaethygu'r mater.

Cyfarfu'r Comisiwn Elusennau â'r elusen i drafod y problemau yr oedd yn eu hwynebu a cheisio datrys y mater. Roedd y sefyllfa fel yr oedd yn golygu nad oedd yr elusen yn cael ei gweinyddu'n briodol a oedd yn bryder mawr. Y cam cyntaf er mwyn unioni'r sefyllfa oedd i'r Comisiwn Elusennau baratoi Gorchymyn dan adran 26 Deddf Elusennau 1993 gan alluogi'r elusen i gynnal etholiad priodol. Roedd y Gorchymyn hefyd yn ystyried hepgoriadau dogfen lywodraethol yr elusen ac yn egluro hawliau a chyfrifoldebau bod yn aelod, gan gynnwys y pŵer i derfynu neu ddileu aelodaeth unigolion.

Oherwydd hanes blaenorol yr elusen, roedd y Gorchymyn hefyd yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn ymgynghori â sefydliad amhleidiol er mwyn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn deg. Er nad oedd hyn yn bodloni pawb, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn cytuno mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ac yn y diwedd cynhaliwyd yr etholiadau a phenodwyd y corff ymddiriedolwyr yn briodol.

Rhan A: Profiad gwaith achosion a chanfyddiadau'r arolwg

Darparu Cynllun sy'n amlinellu darpariaethau llywodraethu newydd

Roedd dwy elusen debyg, pob un gydag aelodaeth fawr, yn dymuno uno ac wedi cysylltu â'r Comisiwn Elusennau am gyngor. Teimlai'r elusennau fod yr uniad er lles gorau'r ddwy elusen a theimlai'r ymddiriedolwyr y byddai cyfuno sgiliau ac arbenigedd o fantais i'r buddiolwyr. Hwylusodd y Comisiwn Elusennau hyn trwy gyfrwng Cynllun a oedd yn creu sefydliad newydd. Yn ogystal â diffinio amcanion newydd yr elusen, roedd y Cynllun hefyd yn ymdrin â darpariaethau aelodaeth a strwythur y corff ymddiriedolwyr newydd.

Roedd yr ymddiriedolwyr yn awyddus i gynnal cymeriad y ddwy elusen trwy gyfuno'r ddwy, ond roedd y cynigion hyn yn golygu y byddai'r corff ymddiriedolwyr newydd yn fawr iawn ac yn anhylaw ac nid oedd yn hawdd trosglwyddo darpariaethau aelodaeth ar gyfer pob elusen.

Trwy drafod â'r ymddiriedolwyr, paratôdd y Comisiwn Elusennau strwythur aelodaeth drafft a oedd yn ymdrin ag anghenion yr elusen "newydd" ond heb golli'r ethos gwreiddiol.

Agor Ymchwiliad Adran 8

Fel rheol cynhelir Ymchwiliadau Adran 8 gan ganolbwyntio ar feysydd fel camddefnydd neu gamweinyddu.[7] Nid materion aelodaeth yw'r pryder canolog yn gyffredinol ond gallant fod yn ffactor sydd wrth wraidd gwaith achosion. Lle'n bosib byddwn yn ceisio rhoi'r elusen yn ôl ar y trywydd iawn cyn y bydd angen cynnal Ymchwiliad.

Roedd y Comisiwn Elusennau yn ymdrin ag elusen maint canolig a fu'n cael problemau rhwng grwpiau o'i hymddiriedolwyr. Hefyd bu honiadau nad oedd y rhestr aelodaeth ar gael felly roedd yn anodd adnabod pwy oedd â hawl i bleidleisio yn yr etholiadau. I gychwyn ceisiodd y Comisiwn Elusennau gynorthwyo'r ymddiriedolwyr i ddatrys materion er mwyn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol. Er mwyn symud materion yn eu blaen, cynigiodd y Comisiwn Elusennau baratoi Gorchymyn yn awdurdodi CCB dilys ond dewisodd yr ymddiriedolwyr anwybyddu'r cyngor hwn ac aethon nhw ymlaen i gynnal eu cyfarfod eu hunain heb gael y caniatâd angenrheidiol i wneud hynny.

Cynghorodd y Comisiwn Elusennau yr ymddiriedolwyr eu bod yn ymddangos nad oedd gan y rheiny y cymrwyd eu bod nhw wedi cael eu hethol unrhyw awdurdod cyfreithiol i weithredu er mwyn gweinyddu'r elusen ac, yn sgîl honiadau o afreoleidd-dra ariannol, penderfynwyd agor Ymchwiliad ffurfiol. Yn y ffordd hon roedd modd archwilio pob agwedd ar ddull gweinyddu'r elusen a gweithredu pwerau ymyrryd gwarchodol os oes angen.

Gwnaeth yr Ymchwiliad sawl argymhelliad ynglŷn â gweinyddu a llywodraethu'r elusen yr oedd yn rhaid i'r ymddiriedolwyr eu dilyn. Yn ogystal, paratôdd y Comisiwn Elusennau Orchymyn dan adran 26 y Ddeddf Elusennau i roi awdurdod ar gyfer CCB i ethol corff ymddiriedolwyr newydd. Cyflawnwyd hyn a bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu unrhyw oruchwyliaeth a chymorth angenrheidiol.

[7] Adran 8 yw'r pwer sydd gan y Comisiwn Elusennau i gynnal ymchwiliad ffurfiol i elusen neu grwp o elusennau os oes pryderon ynghylch camymddygiad neu gamreoli adnoddau'r elusen a gweithredu er mwyn unioni camarfer neu arferion gwael lle'n bosib. Cyhoeddir canlyniadau'r ymchwiliadau hyn ar ein gwefan.

Rhan B: Arfer orau - rhai canllawiau

Arfer orau wrth lywodraethu elusennau aelodaeth

Mae'n haws gwireddu potensial cadarnhaol aelodaeth pan fydd eglurder ynghylch hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth yr elusen. Awgryma profiad y Comisiwn Elusennau y bydd canolbwyntio ar dri maes allweddol yn helpu osgoi dryswch yn y maes hwn:

- eglurder ynghylch pwy yw'r aelodau ac am eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- eglurder ynghylch yr arferion a'r ystyriaethau cyfreithiol y cytunwyd arnynt ar gyfer cynnal CCB;
- cyfathrebu effeithiol, rheolaidd ag aelodau.

Dengys ein gwaith achosion a chanlyniadau'r arolwg fod yr egwyddorion arfer orau canlynol yn lleihau'r posibilrwydd o wynebu'r anawsterau mwyaf cyffredin y bydd elusennau aelodaeth yn eu profi:

- cadw rhestr aelodaeth fanwl gywir a sicrhau ei bod ar gael i bob budd-ddeiliad (gall fod rhai materion diogelu data yma y dylai'r ymddiriedolwyr gadw mewn cof);
- annog aelodau i ddarllen a deall darpariaethau aelodaeth eu helusen;
- cadw a chyfathrebu gwybodaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol fathau o aelodau yn yr elusen;
- cadw cofnod o'r rheolau ynghylch aelodaeth barhaus a sicrhau ei fod ar gael i bob budd-ddeiliad.

Dylai'r rheolau hyn gynnwys:

- y sail ar gyfer bod yn aelod cymwys;
- y sail ar gyfer diarddel aelod;
- y drefn gwyno sy'n weithredol.
- bod yn glir ynghylch yr arferion a'r ystyriaethau cyfreithiol y cytunwyd arnynt ar gyfer cynnal CCB elusen, a chyfleu'r rhain i'r aelodau.

Byddai modd osgoi nifer o'r problemau y mae'r Comisiwn Elusennau yn eu gweld mewn perthynas ag elusennau aelodaeth trwy wella cyfathrebu rhwng ymddiriedolwyr ac aelodau.

Er mwyn gwella cyfathrebu, dylai ymddiriedolwyr:

- ystyried defnyddio technoleg newydd ac e-bostio'r aelodau hynny sy'n hapus i dderbyn gwybodaeth yn y fformat hwnnw (mae hwn yn gyflym ac yn gost-effeithiol); a
- sicrhau bod unrhyw ohebiaeth mewn fformat priodol sy'n hygyrch ac yn glir i bob aelod.

Mae angen rhoi mwy o sylw i ohebiaeth sy'n rhoi rhybudd am gyfarfodydd oherwydd mae sawl maes y mae angen ymdrin â nhw. Gweler Elusennau a Chyfarfodydd (CC48).

Arfer orau wrth reoli'r ddogfen lywodraethol

Rhan hanfodol o lywodraethu da yw sicrhau bod y ddogfen lywodraethol yn addas i'r pwrpas a bod ei thelerau yn cael eu bodloni. Y ddogfen lywodraethol yw'r lle cyntaf y dylai ymddiriedolwyr neu aelodau gyfeirio ato er mwyn egluro unrhyw beth sy'n ymwneud â gweinyddu eu helusen. Os yw'r ddogfen lywodraethol yn cael ei defnyddio'n effeithiol, gall atal problemau ac anghydfodau rhag codi.

Fel arfer bydd y ddogfen lywodraethol yn pennu'r amodau sylfaenol a thelerau aelodaeth. Dylai fod yn ddigon cynhwysfawr i ganiatáu ar gyfer llywodraethu da a chyfyngu ar y posibilrwydd o anghydfod. Fodd bynnag, ni all y ddogfen lywodraethol gwmpasu pob sefyllfa. Ni ddylai ymddiriedolwyr geisio gwneud hynny ychwaith oherwydd mae'n bosib y bydd yn cyfyngu ar unrhyw gamau y mae angen iddynt eu cymryd yn y dyfodol. Bydd set ychwanegol o reolau neu lawlyfr y mae aelodau yn cytuno arno yn bodloni'r angen i gael manylion y drefn wedi'u hamlinellu.

O fewn y ddogfen lywodraethol bydd nifer o gymalau yn disgrifio'r ffordd y dylid rheoli'r aelodaeth. Fe welwch y cymalau yr ydym yn argymell y dylai elusennau eu cynnwys pan fyddant yn mabwysiadu un o'n dogfennau llywodraethol enghreifftiol yn ein cyhoeddiadau Memorandwm ac Erthyglau Cwmni Enghreifftiol ar gyfer Cwmni Elusennol (GD1) neu Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer Cymdeithasol Anghorfforedig Elusennol (GD3).

Fel arfer bydd cymalau dogfen lywodraethol elusen aelodaeth yn pennu:

- pwy sy'n gymwys i fod yn aelod o'r elusen;
- sut y gellid terfynu neu atal ei aelodaeth;
- sut y caiff hawliau pleidleisio eu dosbarthu;
- amodau a rheolau ynglŷn â chynnal a phleidleisio yn y CCB gan gynnwys darpariaethau'r cworwm;
- telerau ar gyfer galw cyfarfod cyffredinol eithriadol; a
- sut y gellir penderfynu ar newidiadau i'r cyfansoddiad neu ddiddymu'r elusen.

Tra bo rhai dogfennau llywodraethol yn fwy argymhellol nag eraill, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ddehongli'r ddogfen lywodraethol a bydd angen iddynt wneud penderfyniadau ar gyfer rhedeg yr elusen o ddydd i ddydd heb i'r aelodaeth gymryd rhan. Mae hwn yn ffactor allweddol wrth bennu'r cydbwysedd pŵer rhwng aelodau ac ymddiriedolwyr.

Arfer orau wrth reoli etholiadau

Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol

Fel arfer bydd yn ofynnol i elusennau gydag aelodaeth gynnal CCB sy'n gyfle i aelodau fynychu a phleidleisio ar faterion amrywiol sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddull llywodraethu'r elusen y maent yn perthyn iddi. Fel arfer bydd y ddogfen lywodraethol a rheolau eraill yr elusen yn pennu'r trefniadau ar gyfer cynnal CCB.

Gall aelodau hefyd gael cyfle i alw a chymryd rhan mewn CCE (cyfarfod cyffredinol eithriadol, a elwir hefyd yn gyfarfod cyffredinol arbennig weithiau), lle mae penderfyniadau na fyddant yn ailgodi yn cael eu hystyried/cymryd.

Pleidleisio yn y cyfarfodydd hyn yw'r ffordd fwyaf cyffredin y bydd aelodau yn ymarfer eu hawliau gweinyddol a dyma eu prif gyfle i ddylanwadu ar weinyddiad yr elusen.

Yn y CCB, fel arfer bydd aelodau yn:

- cymeradwyo'r cyfrifon a'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn;
- ethol rhai neu bob un o'r ymddiriedolwyr elusen (os yw etholiadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn);
- cymeradwyo penodi archwilwyr; a
- chymeradwyo cofnodion blaenorol.

Gallant hefyd ystyried materion fel newid enw neu amcanion yr elusen a phenderfynu ar gwestiynau o newid cyfansoddiadol fel dosbarthu eiddo'r elusen os yw'r elusen yn cael ei dirwyn i ben neu ei huno, er y bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu trafod mewn cyfarfod cyffredinol eithriadol weithiau.

Pennir y trefniadau y dylid eu dilyn yn ystod a chyn CCB yn nogfen lywodraethol yr elusen. Mae cyhoeddiad y Comisiwn Elusennau Elusennau a Chyfarfodydd (CC48) yn darparu cyngor ar y materion dan sylw.

Gall ymddiriedolwyr elusennau gynnwys yr aelodaeth yn y rhan fwyaf o benderfyniadau ond mae'n rhaid iddynt weithredu ar benderfyniadau a gymerir gan yr aelodaeth dim ond os yw'r ddogfen lywodraethol, rheolau neu'r gyfraith gyffredinol yn datgan bod rhaid iddynt wneud hynny.

Os nad yw aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yn bresennol yn y cyfarfod yna gall fod yn briodol cael pleidlais trwy'r post. Fel rheol bydd dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan a yw hyn yn dderbyniol neu beidio. Yn fwy diweddar, mae elusennau wedi dechrau defnyddio dulliau electronig o hysbysu a phleidleisio. Yn ymarferol nid oes unrhyw reswm pam na ellir defnyddio pleidleisio electronig os yw aelodau wedi datgan eu bod yn hapus i gael eu hysbysu yn y ffordd hon, os oes modd dilysu'r bleidlais.

Os oes darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb yn nogfen lywodraethol yr elusen, ni fydd yr ymddiriedolwyr yn gallu derbyn pleidleisiau yn electronig. Os yw'r ddogfen lywodraethol yn datgan bod pleidleisiau trwy'r post yn dderbyniol, fel rheol bydd hyn yn gwahardd defnyddio gohebiaeth electronig.

Bydd gweithdrefnau llywodraethu cryf yn helpu elusennau reoli eu cyfarfodydd a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn gywir bob amser. Nodir nifer o ystyriaethau ar gyfer arfer orau isod:

- gwneud yn siŵr y gall yr aelodaeth gyfan ymarfer ei hawl i bleidleisio yn y cyfnodau a bennir yn y ddogfen lywodraethol trwy ddarparu digon o wybodaeth am yr amserau a'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y CCB;
- dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn sicrhau nad oes modd camddefnyddio pleidleisio drwy ddirprwy, trwy'r post ac yn electronig; a
- chofnodi'n ofalus y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd mewn unrhyw gyfarfodydd.

Sefydlu lefel y cworwm

Mae'r ddogfen lywodraethol yn pennu nifer yr aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio ac sy'n rhaid bod yn bresennol yn y cyfarfod (naill ai'n bersonol neu drwy ddirprwy) er mwyn i'r penderfyniadau a wneir yn y CCB fod yn ddilys - y 'cworwm'. Mae ein cyhoeddiad Elusennau a Chyfarfodydd (CC48) yn darparu cyngor arfer orau ar weithdrefnau pleidleisio a gofynion cworwm.

Dylai nifer y bobl sy'n ofynnol i ffurfio cworwm fod yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw elusen. Os yw'r cworwm yn cael ei osod yn rhy uchel gall fod anawsterau o ran ei gyrraedd a gall unrhyw absenoldeb ei gwneud hi'n anodd cynnal cyfarfod dilys. Os yw'n rhy isel, gall barn y lleiafrif gael gormod o ddylanwad.

Dylai'r cworwm gael ei osod ar lefel realistig oherwydd mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn cyfarfod sydd heb gworwm yn annilys. Felly, gall methu â chyrraedd cworwm amharu'n ddifrifol ar broses gwneud penderfyniadau'r elusen. Mae'r cworwm yn aml yn ganran o gyfanswm nifer yr aelodau. Wrth i'r elusen newid neu dyfu, gall cyfran yr aelodaeth mae'n realistig i ddisgwyl y byddant yn mynychu CCB newid a dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn newid eu dogfen lywodraethol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Yn gyffredinol yr achosion sy'n achosi problemau y bydd y Comisiwn Elusennau yn eu gweld yw'r rheiny lle mae'r elusen heb lwyddo i gael lefel cworwm mewn cyfarfodydd ond nid ydynt wedi ystyried hyn ac wedi parhau fel pe bai'r cworwm wedi'i gyrraedd. Nid yw penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn cyfarfod heb gworwm yn gyfreithiol gyfrwymol felly ni all corff ymddiriedolwyr a etholwyd mewn cyfarfod heb gworwm weithredu'n gyfreithiol fel ymddiriedolwyr. Gall hyn olygu fod yr elusen yn sefyll yn ei unfan oherwydd nid oes awdurdod gan unrhyw gorff o fewn yr elusen i alw cyfarfod i unioni'r sefyllfa. Gall y Comisiwn Elusennau helpu mewn sefyllfaoedd o'r fath trwy baratoi Gorchymyn sy'n rhoi awdurdod i'r ymddiriedolwyr gynnal cyfarfod priodol a chael yr elusen yn ôl ar y trywydd iawn. Bydd y Comisiwn Elusennau hefyd yn gofyn i'r ddarpariaeth cworwm gael ei diwygio ar gyfer elusennau o'r fath.

Bydd achwynwyr yn aml yn nodi cyfarfodydd a gynhelir heb gworwm neu gyfarfodydd anghyfreithiol mewn elusennau lle mae anghydfod wedi codi. Mae eglurder a thryloywder gweithdrefnau pleidleisio yn hanfodol i leihau'r posibilrwydd y bydd aelodau'n defnyddio hyn mewn ymgais i wrth-droi penderfyniadau y maent yn anhapus â nhw.

Os yw ymddiriedolwyr yn teimlo bod eu cworwm yn anymarferol neu nid oes modd ei gyrraedd, dylent archwilio a oes pŵer ganddynt i newid y ddarpariaeth. Os nad oes pŵer ganddynt, neu nid yw'r ddogfen lywodraethol yn sôn am hyn, dylai ymddiriedolwyr gysylltu â'r Comisiwn Elusennau am gymorth.

Mae'r achos hwn yn dangos un ffordd y gellir datrys anawsterau o ran cael cworwm.

Aeth elusen maint canolog i drafferthion oherwydd roedd cworwm ar gyfer y CCB yn 100 o aelodau. Gwelodd yr ymddiriedolwyr ei fod yn amhosib bodloni'r nifer hwn a chysyllton nhw â'r Comisiwn Elusennau am gyngor ynghylch datrys y sefyllfa.

Cafodd yr ymddiriedolwyr eu rhwystro gan delerau dogfen lywodraethol yr elusen oedd heb gynnwys darpariaeth aelodaeth wedi'i diffinio'n ddigon eglur. Dyma felly esbonio'r nifer mawr ar gyfer cworwm. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys cymal diwygio ac, yn dilyn argymhelliad y Comisiwn, gweithredoedd yr ymddiriedolwyr ar eu pwerau i newid y Cyfansoddiad.

Yn ogystal â lleihau'r cworwm, roedd y diwygiad hefyd yn caniatáu ar gyfer darpariaeth aelodaeth haenedig a oedd yn ymdrin â chyfrifoldebau penodol pob categori aelodaeth. Yn y ffordd hon roedd yr elusen yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon ac roedd dealltwriaeth gliriach gan yr aelodau ynghylch eu rôl a'r hyn a ddisgwyliwyd ganddynt.

Arfer orau wrth reoli strwythurau aelodaeth

Mae enghreifftiau o achosion yn dangos pan fydd aelodaeth fawr iawn gan elusennau mae'n rhaid iddynt roi sylw arbennig i'w strategaethau cyfathrebu a threfniadaeth eu CCB. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau nad yw maint eu haelodaeth yn anhylaw oherwydd fel rheol bydd nifer yr aelodau â phleidlais y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y CCB er mwyn i bleidlais fod yn ddilys (y cworwm) yn ganran cyfanswm nifer yr aelodau.

Mae cadw rhestr aelodaeth gyfoes yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob aelod yn cael y wybodaeth angenrheidiol ynghylch yr elusen, yn enwedig mewn perthynas â'r CCB. Mewn elusennau gydag aelodaeth fwy, gall staff fod yn gyfrifol am reoli cyfathrebu ag aelodau a chynnal y rhestr aelodaeth, neu gallant drefnu contractau allanol ar gyfer y gwasanaethau hyn, a fydd yn golygu costau i'r elusen. Os ydynt yn trefnu contractau allanol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian.

Mae strwythurau aelodaeth gwahanol yn golygu rhoi sylw i agweddau gwahanol ar reolaeth. Er enghraifft, os yw'r corff rhanbarthol yn elusen ar wahân, bydd aelodau'r elusen ranbarthol yn ethol eu corff ymddiriedolwyr eu hunain sy'n gallu cyfleu eu barn i'r elusen genedlaethol. Os nad yw'r corff rhanbarthol yn elusen, mae'r strwythur yn debyg gyda phleidleisiau rhanbarthol yn gasgliadol ac yn cael eu cynrychioli i fyny i'r elusen genedlaethol. Gall y strwythur hwn achosi dryswch ymysg aelodau a budd-ddeiliaid eraill a fydd yn gofyn a ydynt yn sefydliad lleol neu'r corff cenedlaethol, neu'r ddau. Gall fod tensiwn hefyd rhwng buddiannau lleol a chenedlaethol. Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr y cyrff lleol a chenedlaethol yw sicrhau bod eu haelodau yn glir ynghylch sut mae'r strwythur pleidleisio yn gweithio a cheisio lleddfu unrhyw densiynau. Unwaith eto, mae llinellau cyfathrebu da yn bwysig.

Arfer orau wrth reoli amrywiaeth

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar aelodau newydd yn amrywio. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau nad yw eu gweithdrefnau yn gwahardd unrhyw un a allai ymuno â'r elusen. Yn y rhan fwyaf o elusennau, mae aelodaeth yn awtomatig, ar yr amod bod y darpar aelodau yn bodloni rhai meini prawf (a bennir yn y ddogfen lywodraethol neu'r rheolau) e.e. byw mewn ardal arbennig neu ddilyn cred arbennig. Mae cyfyngu ar yr aelodaeth fel hyn yn dderbyniol ar yr amod bod y prawf budd cyhoeddus yn cael ei fodloni. Amlinellir egwyddorion y prawf budd cyhoeddus yn Rhan C.

Mewn rhai amgylchiadau, gall aelodaeth fod yn amodol ar gymeradwyaeth cyfarfod cyffredinol yr aelodau neu'r corff ymddiriedolwyr. Mae'n rhaid i elusennau sy'n mynnu bod aelodau newydd yn cael eu cynnig a'u heilio gan aelodau presennol sicrhau nad yw hyn yn cael ei ystyried fel gwahaniaethu anuniongyrchol. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw pob un o aelodau presennol yr elusen yn dod o un grŵp hiliol ac mae hyn yn cael ei ystyried yn rhwystr i bobl o grwpiau eraill rhag bod yn aelodau.

Arfer orau o ran rheoli'r cydbwysedd pŵer

Weithiau mae ymddiriedolwyr yn camddeall eu bod yn atebol i'w haelodau corfforedig mewn ffordd wahanol i aelodau â phleidlais unigol. Oni bai fod y ddogfen lywodraethol yn datgan fel arall, ni ddylai pleidleisiau aelodau corfforedig gael mwy o bwysigrwydd na phleidleisiau unigolion. Ond mewn rhai amgylchiadau, gall aelodau corfforedig gael nifer mwy o bleidleisiau os yw'r ymddiriedolwyr o'r farn bod eu haelodau corfforedig yn darparu mwy o atebolrwydd.

Mae aelodaeth sy'n cymryd rhan weithgar a chadarnhaol yng ngweinyddiad yr elusen, yn ymarfer ei hawl i bleidleisio ac yn sicrhau bod ganddi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd i'r elusen, yn angenrheidiol er mwyn gwireddu manteision cael aelodaeth.

> *"Er y byddem yn hoffi gweld ein haelodaeth yn cael ei chynnwys mwy, nid yw hyn yn digwydd yn anffodus."*
>
> Ymateb i'r arolwg

Bach iawn o wahaniaeth sydd rhwng aelodau yn galw y bwrdd i gyfrif er lles gorau'r elusen ac aelodau'n ymarfer eu pŵer ar draul gweinyddiad hwylus yr elusen. Bydd elusennau yn gwastraffu amser ac adnoddau gwerthfawr lle mae anghytuno ymysg yr aelodaeth yn golygu nad oes modd gwneud penderfyniadau allweddol neu fod y bwrdd yn cael ei newid yn rhy aml i fod yn effeithiol.

Mewn achosion lle mae'r ymrwymiad ideolegol at sefydliad yn uchel, neu lle mae buddiannau aelodau yn y ffordd y caiff yr elusen ei rhedeg yn sylweddol, gall safbwyntiau ddod i'r amlwg ar ffurf barnau cryf. Mewn sawl achos nid yw hyn yn broblem cyhyd â bod digon o weithdrefnau sy'n pennu sut y gall aelodau leisio eu barn.

Fel arfer bydd aelodau sy'n gwrthwynebu rhai penderfyniadau y mae elusen yn eu cymryd o'r farn bod eu safbwyntiau nhw er lles gorau'r elusen ond, os yw gweithredu'r aelodaeth yn rhwystro'r elusen rhag ymgymryd â'i hamcanion cyfreithlon, dylai'r aelodaeth geisio cael hyd i ateb. Nid yw atal yr elusen rhag gweithredu byth er lles gorau'r elusen. Yn y pen draw, os nad oes modd cyfaddawdu, dylai aelodau ystyried gadael y sefydliad neu ddefnyddio eu hawl gyfreithlon i bleidleisio er mwyn sicrhau newid. Dylai aelodau gofio, mewn unrhyw benderfyniad democrataidd, ni fydd barn rhai pobl yn cael eu hadlewyrchu yn y gweithredu terfynol. Dylai aelodau ddilyn penderfyniadau sy'n cael eu cymryd mewn ffordd deg ac mewn ewyllys da.

Mae'n rhaid i'r ddogfen lywodraethol fod yn glir ynghylch pa hawliau a phwerau sydd wedi'u cadw ar gyfer aelodau a pha rai sy'n cael eu rhoi i'r corff llywodraethu neu unigolion eraill e.e. yr ymddiriedolwr sefydlol. Yn gyffredin, mae hawl gan aelodau elusen ethol a phenodi'r corff llywodraethu ac mae'r corff llywodraethu yn cael rheolaeth lawn dros reolaeth yr elusen ar bob adeg arall.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr roi penderfyniad i bleidlais aelodau'r elusen neu'r tanysgrifwyr dim ond os yw'r ddogfen lywodraethol neu unrhyw reolau a fabwysiadir gan yr elusen neu'r gyfraith gyffredinol yn golygu bod hyn yn ofynnol. Gyda phenderfyniadau eraill gall yr ymddiriedolwyr ddewis gwneud hyn neu roi'r penderfyniad i'w haelodau ar gyfer argymhelliad yn hytrach na phenderfynu ar y cam i'w gymryd.

Mae'r pwerau gwahanol sydd gan aelodau yn amrywio'n fawr o elusen i elusen. Mewn rhai achosion gofynnir i'r aelodau bleidleisio ar benodi'r bwrdd ymddiriedolwyr llawn bob blwyddyn, mewn eraill mae eu cyfraniad at benderfyniadau wedi'i gyfyngu i benodi cyfran o'r corff bob dwy flynedd neu bob tair blynedd.

Atebolrwydd am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud

Mewn rhai achosion, mae pwerau gweithredol yn cael eu cadw yn gyfansoddiadol neu'n cael eu neilltuo i bobl heblaw'r ymddiriedolwyr elusennau, e.e. aelodau. Nid yw hyn yn achosi problem cyhyd â bod y pwerau neilltuedig yn cael eu hymarfer er lles yr elusen. Mewn achos o'r fath, byddai'r ymddiriedolwyr elusennau yn atebol am ganlyniadau

gweithredu ar benderfyniad yr unigolyn neu'r unigolion sydd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw, os yw gweithredu'r penderfyniad hwnnw yn cynnwys gwneud rhywbeth a oedd yn gyfystyr â thor-ymddiriedaeth.

Dylai fod gwahaniaeth glir rhwng yr eitemau agenda y gall aelodau wneud penderfyniad arnynt a'r rheiny sy'n gofyn am argymhelliad yn unig o'r aelodaeth ac ni fyddant yn pennu'r weithred sydd i'w chymryd o reidrwydd.

Pŵer ymddiriedolwyr i ddiarddel aelodau

Mae nifer o reolau cyfreithiol yn bodoli sy'n ymwneud â'r amgylchiadau pan y gall ymddiriedolwyr ddiarddel aelodau a gall fod meini prawf a gweithdrefnau eu hunain gan elusennau unigol y mae'n rhaid eu dilyn.

Mae achosion yn codi lle mae aelod wedi ceisio erlyn yr ymddiriedolwyr ar ôl i'w aelodaeth o'r elusen gael ei therfynu. Mewn un achos roedd yr aelod a gafodd ei ddiarddel wedi erlyn pob un o'r ymddiriedolwyr ac aelodau eraill a oedd wedi rhoi tystiolaeth i gefnogi diarddel. Fodd bynnag, roedd yr achos yn aflwyddiannus, ac roedd costau cyfreithiol yr elusen wedi'u cynnwys gan yswiriant.

Yr unig reswm am hyn oedd oherwydd bod yr ymddiriedolwyr wedi dilyn y darpariaethau o fewn Memorandwm Cwmni yr elusen ac wedi ceisio cyngor cyfreithiol helaeth wrth ddiarddel aelod. Mae Rhan C yn darparu'r manylion cyfreithiol ar gyfer diarddel aelodau.

Pwerau aelodau i ddiswyddo ymddiriedolwyr

Gall aelodau fynegi eu barn ar bolisïau'r bwrdd ymddiriedolwyr trwy ymarfer eu hawl i bleidleisio yn CCB yr elusen lle mae'r aelodaeth yn cael ei galw fel arfer i enwebu a chymeradwyo penodi ymddiriedolwyr newydd.

Gall yr aelodaeth hefyd alw cyfarfod cyffredinol eithriadol (CCE), a elwir weithiau yn gyfarfod cyffredinol arbennig (CCA). Gellir defnyddio'r rhain i drafod unrhyw benderfyniadau neu weithredoedd y mae'r corff llywodraethu yn eu cymryd os ydynt yn teimlo nad ydynt yn bodloni nodau ac amcanion yr elusen neu os ydynt yn teimlo nad yw'r elusen yn cael ei gweinyddu'n briodol.

Mae'r achos hwn yn enghraifft o sut yr oedd elusen wedi delio â therfynu aelodaeth unigolyn.

Ysgrifennodd aelod o gangen lleol o elusen genedlaethol at y Comisiwn Elusennau i gwyno ei fod wedi cael ei dynnu o restr bostio'r elusen. Roedd hyn wedi golygu fod ei aelodaeth wedi cael ei therfynu heb ei ganiatâd.

Datgelodd ymchwiliadau cychwynnol fod anghydfod wedi datblygu rhwng yr ymddiriedolwyr a'r unigolyn dan sylw ac roeddent wedi cymryd penderfyniad y mwyafrif i weithredu yn unol â'r pwerau sydd ar gael iddynt yn eu dogfen lywodraethol. Teimlai'r ymddiriedolwyr mai dyma oedd y ffordd fwyaf priodol o ddatrys materion. Ar ôl adolygu'r achos cadarnhawyd bod dogfen lywodraethol yr elusen yn caniatáu i aelodau gael eu gwahardd dan rai amodau.

Ar ôl gwerthuso'r mater, cynghorodd y Comisiwn Elusennau yr achwynydd nad oedd modd iddynt ymyrryd gyda phenderfyniadau gweinyddol os oedd y rhain o fewn disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Cynghorodd y Comisiwn Elusennau y dylai'r achwynydd gysylltu â'r elusen genedlaethol fel y corff priodol i ddelio â'r math hwn o bryder.

Nid dyma unig bwrpas CCE ac fel arfer bydd ymddiriedolwyr yn galw cyfarfod ar gyfer ystyried busnes nad yw'n ailgodi sy'n gofyn am gymeradwyaeth aelodau rhwng CCB (fel newidiadau i'r ddogfen lywodraethol). Ni all ymddiriedolwyr wrthod cynnal CCE ar yr amod bod yr aelodau yn hapus bod yr holl reolau yn y ddogfen lywodraethol sy'n ymwneud â threfnu un wedi cael eu bodloni.

Mae nifer yr ymddiriedolwyr neu gyfran y corff llywodraethu y maent yn gallu ei hethol yn allweddol i lefel y pŵer sydd gan aelodau.

Penodi ymddiriedolwyr

Gall aelodau ddylanwadu ar gyfeiriad yr elusen trwy ethol bwrdd ymddiriedolwyr y credant fydd yn ei gwasanaethu'n dda . Gall cael cyfran yn unig o'r corff ymddiriedolwyr wedi'i benodi gan yr aelodaeth sicrhau bod rhywfaint o barhad ond gallai hyn hefyd gyfyngu ar allu'r aelodau sydd newydd gael eu hethol i wneud newidiadau i gyfeiriad yr elusen neu'r ffordd y caiff ei rhedeg.

Mae'n bwysig i beidio â newid y corff ymddiriedolwyr yn aml os nad oes angen (a all ddigwydd mewn elusennau lle mae grwpiau gwrthwynebol o fewn y corff ymddiriedolwyr a/neu'r aelodaeth) a bod y gwaith papur yn cael ei gadw'n gyfoes er mwyn peidio ag esgeuluso'r gwaith gweinyddol.

Mae ein cyfansoddiadau enghreifftiol yn argymell bod y ddogfen lywodraethol yn cynnwys rheol sy'n cyfyngu ar y cyfnod y gall ymddiriedolwr wasanaethu a dylai telerau'r ymddiriedolaeth gael eu hamrywio er mwyn peidio â newid y bwrdd cyfan ar yr un pryd.[8]

Mae cyhoeddiad y Comisiwn Elusennau Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS1) yn darparu rhai awgrymiadau arfer orau ar gyfer sefydlu ymddiriedolwyr newydd.

Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall anghydfodau mewnol amharu ar weinyddiad hwylus yr elusen.

Roedd anghytundeb o fewn corff ymddiriedolwyr elusen maint canolig wedi gwaethygu gan greu sefyllfa lle na allai'r elusen weithredu a gofynnwyd i'r Comisiwn Elusennau ymyrryd yn y mater.

Roedd yr aelodau wedi rhannu'n ddau grŵp gyda barn wahanol yn cyfateb â'r grwpiau o fewn y corff ymddiriedolwyr. Yna penderfynodd yr aelodau o bob ochr ddefnyddio eu hawl i alw cyfarfodydd cyffredinol eithriadol i ethol yr ymddiriedolwyr yr oeddent yn cydymdeimlo â hwy. Roedd hyn yn golygu bod y corff ymddiriedolwyr yn newid yn gyson oherwydd byddai'r grŵp o aelodau a oedd yn gryfach yn y cyfarfod arbennig yn ethol un set o ymddiriedolwyr ond bydden nhw yn eu tro yn cael eu disodli yn ddiweddarach.

Gwaethygodd y broblem gan y ffaith bod darpariaethau yn y ddogfen lywodraethol yn amwys iawn ac nid oedd y meini prawf ar gyfer aelodaeth wedi'u diffinio'n glir. Ceisiodd y ddwy set o ymddiriedolwyr recriwtio aelodau newydd neu ychwanegol a gytunodd â'u barn gan roi pwysau i'w 'hochr' nhw a gwella eu posibilrwydd o gael eu hethol yn y CCE nesaf.

[8] Memorandwm ac Erthyglau Cwmni Enghreifftiol ar gyfer Cwmni Elusennol (GD1) a Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer Cymdeithas Anghorfforedig Elusennol (GD3).

Roedd y Comisiwn Elusennau yn gobeithio cynorthwyo trwy ddiwygio'r ddogfen lywodraethol er mwyn sefydlogi'r corff ymddiriedolwyr ac egluro'r ddarpariaeth aelodaeth. Fodd bynnag, cyn y gellid gweithredu'r mesurau hyn penderfynodd prif noddwr yr elusen y byddent yn tynnu'n ôl ei gefnogaeth. Nid oedd yr elusen yn gallu ymgymryd â'i phwrpas elusennol ac o ganlynid penderfynodd ddirwyn i ben.

Roedd y darpariaethau aelodaeth gwael yn y ddogfen lywodraethol ac anallu'r ymddiriedolwyr a'r aelodau i flaenoriaethu anghenion yr elusen dros eu blaenoriaethau nhw wedi golygu bod adnoddau elusennol yn cael eu gwastraffu ac nid oedd modd ymgymryd â gweithgareddau elusennol.

Arfer orau wrth ddatrys anghydfodau

Bydd rheolau a gweithdrefnau clir sy'n pennu'r ffordd y disgwylir i'r aelodaeth gyfrannu at yr elusen ac ar ba delerau y dylai'r ymddiriedolwyr ymateb i'w barn yn helpu osgoi dadleuon ac yn gweithredu fel man cyfeirio os ydynt yn codi.

Os yw gweithrediadau'r ymddiriedolwyr yn gyfreithiol, nid oes modd datrys dadleuon yn y llys neu drwy gyfeirio'r mater i'r Comisiwn Elusennau. Dylai ymddiriedolwyr ystyried a yw cymal sy'n datgan y dylai anghydfodau fynd at gyfryngu yn briodol ar gyfer yr elusen. Mae cyfryngu yn golygu costau ond gall olygu bod anghydfodau'n cael eu datrys cyn iddynt fynd yn rhy bell ac yn gwastraffu adnoddau elusennau.

Rhan C: Ystyriaethau cyfreithiol

Budd cyhoeddus

Mae angen i ymddiriedolwyr ystyried yn ofalus y ffordd y mae cymhwyster ar gyfer aelodaeth yn cael ei bennu o fewn eu helusen. Nid oes gan unrhyw un hawl awtomatig i fod yn aelod o elusen ond fel rheol mae'n rhaid i gyfyngiadau ar aelodaeth gael eu hosgoi a dylai cymhwyster ar gyfer aelodaeth fod mor agored â phosib.

Mewn rhai amgylchiadau, a ddylai fod yn dryloyw, gall fod angen cyfyngu ar yr aelodaeth. Mae angen ystyried y mater yn ofalus os yw aelodaeth yn ofynnol er mwyn cael budd o'r elusen. Yma gall unrhyw gyfyngiad gael effaith ar lefel y budd cyhoeddus y gall yr elusen ei dangos. Ni all cyfyngiadau ar aelodaeth gael eu defnyddio fel ffordd o drosglwyddo budd anelusennol a phreifat yn unig.

Gall lefel y 'budd preifat' anelusennol y gall aelodau elusennau ei dderbyn hefyd fod yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig yn achos cymdeithasau dysgedig neu gyrff proffesiynol lle mae cyfyngiadau eithaf tynn ar aelodaeth. Mae angen i elusennau sicrhau nad yw dosbarthu buddiannau aelodaeth yn golygu bod eu helusen yn methu'r prawf budd cyhoeddus sy'n ofynnol ar gyfer statws elusennol.

Mae ein cyhoeddiadau Natur Gyhoeddus Elusennau (RR8) a Deddf Elusennau Adloniadol 1958 (RR4) yn rhoi esboniad mwy manwl o'r egwyddor budd cyhoeddus.

Hawliau aelodau

Mae hawliau gweinyddol aelodau yn rhannu'n ddau gategori:

(1) hawliau sy'n gysylltiedig â phennu strwythur trefniadaethol elusen e.e. hawliau sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phenodi neu ddiswyddo ymddiriedolwyr elusennau, neu newid cyfansoddiad yr elusen; a

(2) hawliau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r elusen, er enghraifft, hawl a gedwir ar gyfer sylfaenydd yr elusen gan ddogfen lywodraethol elusen i gyfeirio sut y dylid defnyddio adnoddau'r elusen. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n galluogi neu'n mynnu bod unigolyn neu unigolion gwahanol yn cymeradwyo neu'n dilysu penderfyniad y mae ymddiriedolwyr elusennau wedi'i wneud.

Fel rheol bydd cyfansoddiad gan elusennau aelodaeth, os yw'n gymdeithas anghorfforedig elusennol, neu Femorandwm ac Erthyglau Cwmni os yw'r elusen yn gwmni. Er ei fod yn anghyffredin i elusennau sydd â dogfen lywodraethol ar ffurf gweithred ymddiriedolaeth gael aelodaeth yn ôl ein diffiniad ni ohoni yma, nid oes unrhyw reswm cyfreithiol pam na allant ei chael. Gall ffurfiau llai cyffredin o ddogfen lywodraethol, er enghraifft Cynllun neu Ddeddf Seneddol, gael aelodaeth a bydd hyn yn amrywio ym mhob achos unigol.

Gall dogfen lywodraethol elusen roi nifer o hawliau gweinyddol gorfodadwy ar bobl heblaw ymddiriedolwyr elusennau. Gall y rhain gael eu gorfodi naill ai fel mater o gontract, ymddiriedolaeth neu'r ddau.

Mae eiddo pob elusen, beth bynnag fo ffurf y ddogfen lywodraethol sydd ganddynt, heblaw eiddo corfforedig elusennau sydd wedi cael eu corffori gan neu dan statud, yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth.[9] Mae'r canlynol yn wir yn achos unrhyw elusen sy'n meddu ar eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth:

- Os yw dogfen lywodraethol yr elusen hefyd yn dystiolaeth o gontract rhwng aelodau'r elusen, yna gall yr aelodau orfodi unrhyw hawliau gweinyddol y mae'r ddogfen lywodraethol yn eu rhoi iddynt fel mater o gontract.

- Os yw'r ddogfen lywodraethol yn dystiolaeth o gontract o'r fath neu beidio, gall unrhyw hawliau gweinyddol a roddir gan y ddogfen lywodraethol i'r aelodau, neu unrhyw unigolion eraill ar wahân i'r ymddiriedolwyr elusennau, gael eu gorfodi fel mater o'r gyfraith ymddiriedolwyr, oherwydd mae'r hawliau hynny yn rhan o ymddiriedolaethau'r elusen.

Fodd bynnag, nid yw eiddo corfforedig elusennau sydd wedi cael eu corffori gan neu dan statud yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth. Felly nid oes modd gorfodi hawliau gweinyddol aelodau mewn perthynas ag eiddo o'r fath yn gyfreithiol dan y gyfraith ymddiriedolaeth.

Yn achos cwmni elusennol, mae modd gorfodi hawliau gweinyddol aelodau yn gyfreithiol yn unol â'r darpariaethau yn adran 14 Deddf Cwmnïau 1985 sy'n dweud fod dogfen lywodraethol y cwmni yn rhwymo'r cwmni a'i aelodau i'r un raddau â phe byddai'r dogfennau wedi cael eu harwyddo a'u selio gan bob aelod ac yn cynnwys cyfamodau ar ran pob aelod i barchu holl ddarpariaethau'r ddogfen lywodraethol.

Os nad yw'r ddogfen lywodraethol yn sôn am hyn, ac nid yw'n neilltuo hawliau gweinyddol mewn man arall, cymerir yn ganiataol fod gan yr ymddiriedolwyr reolaeth gyffredinol dros benderfyniadau.

Rhwymedigaethau pleidleisio aelodau

Nid oes gan aelodau cwmni *anelusennol* y rhwymedigaeth i ymarfer eu hawliau "er lles gorau'r cwmni". Wrth ymarfer eu hawliau pleidleisio, mae hawl gan aelodau cwmnïau anelusennol ystyried eu buddiannau nhw yn unig.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Elusennau yn ystyried bod yr hawliau sy'n bodoli mewn perthynas â gweinyddu sefydliad *elusennol* yn ymddiriedol, beth bynnag fo hunaniaeth yr unigolyn neu'r unigolion y rhoddir yr hawliau iddynt. Felly mae hyn yn gymwys i aelodau unigol a chorfforedig.

[9] Mae eiddo corfforedig yn cael ei berchen yn fuddiol gan gwmni yn yr un ffordd ag y mae unigolyn yn berchen ar ei eiddo ei hun, ac eithrio gall y cwmni ddelio â'r eiddo mewn ffordd sydd wedi'i hawdurdodi gan ei dogfennau llywodraethol yn unig. Mae'r elw sy'n deillio o werthu nwyddau neu wasanaethau gan gwmni elusennol, a rhoddion anghyfyngedig neu grantiau i'r cwmni, yn enghreifftiau o eiddo corfforedig.

Os oes modd, dan delerau dogfen lywodraethol sefydliad, ymarfer hawliau gweinyddol heblaw er lles y sefydliad, heb dorri ymddiriedolaeth neu ddyletswydd, yna mae'r cwestiwn yn codi a yw'r sefydliad wedi'i ffurfio mewn gwirionedd at ddibenion elusennol **yn unig**. Os mai dyma yw'r achos, nid yw'r sefydliad yn elusennol.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y mae aelodau cwmnïau elusennol wedi'u cyfrwymo'n gyfreithiol i bleidleisio er lles gorau'r elusen y maent yn aelod ohoni. Dadleuwyd bod aelodau cwmnïau elusennol yn yr un sefyllfa yn gyfreithiol ag aelodau cwmnïau anelusennol. Cynigir y dylai deddfwriaeth ei gwneud hi'n glir ar gyfer y strwythur Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd fod rhaid ymarfer hawliau gweinyddol aelodau mewn ffordd ymddiriedol.

Diarddel aelodau

Gall dogfen lywodraethol bennu'r gweithdrefnau/rheolau lleiaf posib sy'n ymwneud â diarddel neu wahardd aelodau. Mewn sawl achos mae'r corff ymddiriedolwyr yn cadw'r hawl i derfynu aelodaeth unrhyw aelod, ar yr amod y bydd gan yr aelod dan sylw yr hawl i gael ei glywed, yng nghwmni perthynas, ffrind neu eiriolwr (pe dymunir) cyn gwneud penderfyniad terfynol.

O ran sefydliadau anghorfforedig, nid oes unrhyw bŵer cynhenid i ddiarddel aelod (Dawkins v Antrobus (1881) 17 Ch.D 615, 620). Os nad oes pŵer i ddiarddel aelod, ond mae darpariaeth i newid y ddogfen lywodraethol, bydd pŵer newydd i ddiarddel aelod y mae ei ymddygiad yn niweidiol i'r sefydliad yn ddilys ar yr amod y caiff ei fabwysiadu'n briodol dan y peirianwaith penodedig. Fodd bynnag, nid oes modd ei weithredu yn ôl-weithredol (Dawkins v Antrobus; supra). Rhaid i bŵer i ddiarddel aelod gael ei ymarfer mewn ewyllys da ac nid yn fympwyol ac mae'r gofynion sylfaenol o hawl i gael gwybod natur a manylion y drosedd a'r rhesymau dros ddiarddel neu wahardd, hawl i gael hysbysiad o'r gwrandawiad a hawl i'r aelod gyflwyno ei achos yn cael eu derbyn (Labouchere v Iarll Wharncliffe, (1879) 13, Ch D 346; Calvin v Carr [1980] A.C. 574). Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn gymwys i atal aelodaeth.

Mae pŵer gan ymddiriedolwyr hefyd i beidio â derbyn rhai aelodau i'r elusen. Gellir gwrthod rhoi aelodaeth i ddarpar aelodau hefyd os yw'r ymddiriedolwyr yn credu bod eu rheswm dros ymuno yn groes i amcanion yr elusen. Gall aelodau hefyd gael eu diarddel am y rheswm hwn (Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid v Twrnai Gwladol ac Eraill [2001] 3 All ER 530).

Mae pwerau i wahardd aelodau yn ymddiriedol eu natur ac felly mae'n rhaid iddynt gael eu hymarfer yn unol â'r dibenion y cawsant eu rhoi ar eu cyfer mewn ewyllys da er lles yr elusen a bodloni rheolau cyfiawnder naturiol. Ni all ymddiriedolwyr ddefnyddio'r rheolau cyfreithiol hyn i fabwysiadu dull mympwyol o weithredu polisi aelodaeth er mwyn sicrhau (er enghraifft) nad yw'r aelodaeth yn cynnwys pobl a allai gwrthwynebu eu safbwyntiau.

Atodiad A: Technegau ymchwil

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn deillio o seminarau gyda staff y Comisiwn Elusennau, cyfarfodydd ag unigolion a grwpiau o elusennau ac archwiliad o archif gwaith achosion helaeth y Comisiwn Elusennau.

Yn ogystal comisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol i ymgymryd ag arolwg trwy'r post o 3000 o elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ystod Rhagfyr 2003. Y gyfradd ymateb i'r arolwg oedd 50% (1508 o holiaduron) sy'n gyfradd ymateb wych ar gyfer y math hwn o arolwg. Mae hyn yn caniatáu cyfwng hyder sy'n fwy na +/-3%, sy'n safon y diwydiant.

Rhannwyd sampl yr arolwg i'r bandiau incwm canlynol:

Dosbarthiad maint yr elusen

Bach	incwm yn llai na £10,000
Canolig	incwm £10,000 - £249,999
Mawr	incwm £250,000 - £999,999
Mawr iawn	incwm £1,000,000+

Gofynnwyd i elusennau ddosbarthu'r math o weithgaredd y maent yn ymgymryd ag ef:

Dosbarthiad gweithgaredd yr elusen

Cymorth ariannol	darparu cymorth ariannol (e.e. rhoi grantiau i unigolion a/neu sefydliadau)
Adeiladau	darparu adeiladau/cyfleusterau/lle agored
Gwasanaethau	darparu gwasanaethau (e.e. gofal/cwnsela)
Cyngor	darparu eiriolaeth/cyngor/gwybodaeth/addysg
Corff mantell	gweithredu fel corff mantell/adnoddau
Ymchwil	noddi neu ymgymryd â gwaith ymchwil

Proffil yr elusennau gydag aelodau unigol a arolygwyd



Sylfaen (Pob un): 1508

Cyfanswm (39%)

Prif Weithgaredd

- Cymorth Ariannol (20%)
- Adeiladau (34%)
- Gwasanaethau (48%)
- Cyngor (47%)
- Corff Mantell (41%)
- Ymchwil (45%)

Incwm

- £1 miliwn+ (36%)
- £250k-£999k (46%)
- £100k-£249k (47%)
- £10k-£99k (41%)
- Dan £10k (28%)

Prif Faes Gwaith

- Addysg (34%)
- Meddygol/Iechyd (38%)
- Anabledd (57%)
- Cymorth i'r Tlodion (24%)
- Tai (24%)
- Crefydd (33%)
- Celfyddydau/Diwylliant (52%)
- Chwaraeon (42%)
- Amgylchedd (41%)
- Cyffredinol (33%)

Proffil yr elusennau gydag aelodau corfforaethol a arolygwyd



Sylfaen (Pob un): 1508

Cyfanswm (11%)

Prif Weithgaredd	Incwm	Prif Faes Gwaith
Cymorth Ariannol (7%)	£1 miliwn+ (11%)	Addysg (10%)
Adeiladau (14%)	£250k-£999k (16%)	Meddygol/Iechyd (9%)
Gwasanaethau (11%)	£100k-£249k (15%)	Anabledd (10%)
Cyngor (14%)	£10k-£99k (9%)	Cymorth i'r Tlodion (7%)
Corff Mantell (21%)	Dan £10k (5%)	Tai (9%)
Ymchwil (17%)		Crefydd (8%)
		Celfyddydau/Diwylliant (14%)
		Chwaraeon (17%)
		Amgylchedd (25%)
		Economaidd (24%)
		Cyffredinol (9%)

Tabl 1: Nifer yr Aelodau Unigol - yn ôl Incwm

		Bach	Canolig		Mawr	Mawr Iawn
	Cyfanswm	Llai na £10k	£10k-£99k	£100k-£249k	£250k-£999k	£1m neu fwy
	%	%	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un gydag aelodau unigol)	591	93	138	136	125	99
Hyd at 5	7	4	5	7	10	9
6-9	4	4	1	4	5	9
10-24	15	28	14	15	13	6
25-49	13	18	12	14	12	11
50-99	14	13	18	10	15	12
100-999	26	15	36	35	24	13
1000+	14	2	8	9	18	34
Ddim yn gwybod/ heb nodi	7	15	7	6	2	5
Nifer cyfartalog yr aelodau yr elusen	1972	232	426	342	1230	8740

Tabl 2: Nifer yr Aelodau Unigol - yn ôl Prif Weithgaredd

	Cyfanswm	Cymorth Ariannol	Adeiladau	Gwasanaethau	Cyngor
	%	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un gydag aelodau unigol)	591	66	70	141	146
Hyd at 5	7	9	4	7	8
6-9	4	5	6	4	5
10-24	15	21	17	16	14
25-49	13	11	9	16	14
50-99	14	6	10	15	13
100-999	26	21	40	25	23
1000+	14	18	7	10	19
Ddim yn gwybod/heb nodi	7	9	7	7	6
Nifer cyfartalog yr aelodau yr elusen	1972	1312	410	672	4892

Sylwer: Colofnau eraill heb eu cynnwys oherwydd eu bod yn rhy fach i'w dadansoddi

Tabl 3: Nifer yr Aelodau Eraill - yn ôl Incwm

		Bach	Canolig		Mawr	Mawr Iawn
	Cyfanswm	Llai na £10k	£10k-£99k	£100k-£249k	£250k-£999k	£1m neu fwy
	%	%	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un gydag aelodau unigol)	300	35*	51*	67	73	74
Hyd at 5	19	14	28	24	12	16
6-9	5	9	4	5	3	7
10-24	14	17	18	15	19	5
25-49	5	14	6	6	3	-
50-99	8	3	18	5	7	10
100-999	18	3	18	21	25	16
1000+	20	6	6	5	25	43
Ddim yn gwybod/ heb nodi	11	34	4	21	6	3
Cyfartalog (nifer)	5991	116	153	156	1186	20741

* Sylfaen isel

Tabl 4: Crynodeb o Fathau o Aelodau

	Cyfanswm	Unigol	Corfforedig	Arall
	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un)	1508	591	170	300
Unigol	39	100	55	59
Corfforedig	11	16	100	14
Arall	20	30	25	100
Dim	49	-	-	-

Tabl 5: Cyfuniad o Fathau o Aelodau - yn ôl incwm (heb gynnwys elusennau sydd heb unrhyw aelodau)

		Bach	Canolig		Mawr	Mawr Iawn
	Cyfanswm	Llai na £10k	£10k-£99k	£100k-£249k	£250k-£999k	£1m neu fwy
	%	%	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un gydag aelodau)	774	112	166	174	171	151
Unigol *a* chorfforedig *ac* arall	4	1	0	6	5	4
Unigol *a* chorfforedig	8	4	10	9	11	6
Unigol *ac* arall	20	20	19	16	20	24
Corfforedig *ac* arall	2	1	1	3	2	2
Unigol yn unig	44	58	54	47	37	32
Corfforedig yn unig	8	6	5	6	9	13
Arall yn unig	14	10	11	13	15	19

Tabl 6: Cyfuniad o Fathau o Aelodau - yn ôl incwm (gan gynnwys elusennau sydd heb unrhyw aelodau)

		Bach	Canolig		Mawr	Mawr Iawn
	Cyfanswm	Llai na £10k	£10k-£99k	£100k-£249k	£250k-£999k	£1m neu fwy
	%	%	%	%	%	%
Sylfaen (Pob un)	1508	258	299	292	309	350
Unigol *a* chorfforedig *ac* arall	2	*	-	4	3	2
Unigol *a* chorfforedig	4	2	6	6	6	3
Unigol *ac* arall	10	9	10	10	11	10
Corfforedig *ac* arall	1	*	1	2	1	1
Unigol yn unig	23	25	30	28	20	14
Corfforedig yn unig	4	3	3	3	5	6
Arall yn unig	7	4	6	8	8	8
Dim	49	57	45	40	45	57

* Llai na 0.5%

Tabl 7: Cyfuniadau o fathau o aelodau - yn ôl Prif Weithgaredd (heb gynnwys elusennau sydd heb unrhyw aelodau)

	Cyfanswm %	Cymorth ariannol %	Adeiladau %	Gwasanaethau %	Cyngor %	Corff mantell %	Ymchwil %
Sylfaen (Pob un gydag aelodau)	774	94	95	182	185	43*	17**
Unigol *a* chorfforedig *ac* arall	4	3	4	2	5	7	0
Unigol *a* chorfforedig	8	7	12	7	11	7	18
Unigol *ac* arall	20	18	16	16	22	7	24
Corfforedig *ac* arall	2	1	3	3	1	5	0
Unigol yn unig	44	41	42	52	42	42	35
Corfforedig yn unig	8	13	11	5	8	14	12
Arall yn unig	14	16	13	14	12	19	12

* Sylfaen isel ** Sylfaen isel iawn

Tabl 8: Cyfuniad o Fathau o Aelodau - yn ôl Oedran yr Elusen

	Cyfanswm %	5 oed neu'n iau %	6-20 oed %	21-100 oed %	101+ oed %
Sylfaen (Pob un)	1508	258	299	292	309
Unigol *a* chorfforedig *ac* arall	2	3	0	3	2
Unigol *a* chorfforedig	4	1	4	6	3
Unigol *ac* arall	10	11	8	12	11
Corfforedig *ac* arall	1	2	1	1	1
Unigol yn unig	23	17	24	26	15
Corfforedig yn unig	4	4	6	3	1
Arall yn unig	7	11	8	6	6
Dim aelodau	49	51	49	44	61

Tabl 9: Cyfuniad o Fathau o Aelodau - yn ôl Prif Faes Gwaith (gan gynnwys elusennau sydd heb unrhyw aelodau)

	Cyfanswm %	Addysg %	Meddygol %	Anabledd %	Cymorth i'r tlodion %	Crefyddol %	Tai %	Celfyddydau %	Chwaraeon %	Amlgylchedd %	Cyffredinol %
Sylfaen (Pob un)	1508	400	152	84	68	130	68	95	60	64	94
Unigol *a* chorfforedig *ac* arall	2	2	1	0	3	3	1	3	2	2	3
Unigol *a* chorfforedig	4	3	3	6	1	2	1	2	5	5	13
Unigol *ac* arall	10	7	9	21	1	10	3	10	18	10	8
Corfforedig *ac* arall	1	0	1	0	0	1	3	2	1	2	5
Unigol yn unig	23	22	26	30	18	18	18	18	26	25	17
Corfforedig yn unig	4	4	5	4	3	1	3	1	5	8	5
Arall yn unig	7	6	4	12	4	14	9	14	7	0	11
Dim	49	56	52	27	69	51	62	51	35	48	39

Sylwer: Colofnau eraill heb eu cynnwys oherwydd eu bod yn rhy fach i'w dadansoddi

Tabl 10: Rhesymau dros feddwl bod aelodau unigol yn ddefnyddiol/ddim yn ddefnyddiol

	Cyfanswm %
Sylfaen (Pob un gydag aelodau unigol)	591
Ymatebion cadarnhaol	***81***
Rhoi llais/dylanwad i ddefnyddwyr elusen yn y ffordd y caiff ei gweinyddu	15
Helpu/cyfrannu/cymryd rhan	15
Aelodau'n cynnig safbwyntiau amrywiol	13
Adborth aelodau yn ddefnyddiol i'r pwyllgor/ymddiriedolwyr	9
Aelodau yn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn berthnasol i'w hanghenion nhw/ eu cwsmeriaid	7
Rydym yn manteisio ar eu profiad	6
Rydym yn manteisio ar eu cefnogaeth	6
Sicrhau gonestrwydd/tryloywder	6
Sicrhau bod yr elusen yn cael ei gweinyddu'n ddemocratig	6
Aelodau'n darparu cymorth ariannol/cyfrannu'n ariannol	6
Ymddiriedolwyr/pwyllgor yn cael eu hethol o'r aelodaeth	6
Rydym yn manteisio ar eu harbenigedd a'u sgiliau	5
Elusen yn cael ei gweinyddu gan yr aelodau i'r aelodau	5
Ni fyddai'r elusen yn bodoli heb yr aelodau	5
Ymatebion negyddol	***10***
Rhy ychydig yn mynychu CCB	3
Rhy ychydig yn pleidleisio/cymryd rhan	2

Sylwer: Rhoddwyd nifer o ymatebion eraill ar lefel is.

Tabl 11: Rhesymau dros feddwl bod aelodau corfforedig yn ddefnyddiol/ddim yn ddefnyddiol

	Cyfanswm %
Sylfaen (Pob un gydag aelodau corfforedig)	170
Ymatebion cadarnhaol	***75***
Maen nhw'n rhoi cymorth ariannol	13
Darparu arbenigedd/profiad	11
Darparu cyngor defnyddiol	9
Goruchwylio sut caiff yr elusen ei gweinyddu	9
Darparu cymorth	8
Darparu cysylltiad/dylanwad â'r cyngor lleol/sector cyhoeddus	7
Cael croestoriad da o safbwyntiau	5
Darparu proffesiynoldeb	5
Ymatebion Negyddol	***7***
Rhy ychydig yn mynychu CCB	3
Rhy ychydig yn pleidleisio/cymryd rhan	2

Sylwer: Rhoddwyd nifer o ymatebion eraill ar lefel is.

Tabl 12: Termau a ddefnyddir i ddisgrifio aelodau eraill

	Cyfanswm %
Sylfaen (Pob un gydag aelodau eraill)	300
Noddwyr	13
Ffrindiau	13
Cyfranogion/aelodau cyswllt	12
Noddwyr y celfyddydau	7
Aelodau mygedol	5
Gwirfoddolwyr	4
Is-lywyddion	4
Aelodau iau	4

Atodiad B - Rhestr termau

Ystyr **Aelod Unigol** yw unigolyn sy'n gallu effeithio ar ddull llywodraethu elusen trwy bleidleisio yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen, ac sy'n bodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer aelod fel a bennwyd yn nogfen lywodraethol yr elusen. Nid yw ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr ac unrhyw unigolion eraill sydd ar y corff llywodraethu wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn o aelod.

Mae **aelodau corfforedig** yn cynnwys cwmnïau, awdurdodau lleol a chyrff neu sefydliadau cyhoeddus eraill y mae gan gynrychiolydd enwebedig hawl i bleidleisio yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen ar ran y sefydliad y maent yn ei gynrychioli. Byddai'r categori hwn hefyd yn cynnwys unrhyw elusennau anghorfforedig a sefydliadau dielw eraill y mae cynrychiolydd yn aelod â phleidlais elusen arall.

Ystyr **CCB** yw **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**, sy'n agored i bob aelod.

Ystyr **CCE** yw Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol (weithiau'n cael ei alw'n Gyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA) gan elusennau anghorfforedig) ac mae'n golygu unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r aelodau heblaw CCB.

Ystyr **cwmni elusennol** yw cwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd dan Ddeddf Cwmnïau 1985 neu un y mae darpariaethau'r Ddeddf honno yn gymwys iddo, ac sydd wedi'i sefydlu at ddibenion elusennol.

Ystyr **cworwm** yw'r nifer lleiaf o bobl sydd â'r hawl i fynychu a phleidleisio ac mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn gwneud penderfyniadau dilys yn y cyfarfod hwnnw. Gall cworwm fod yn nifer penodedig neu'n ganran o'r rheiny sydd â hawl i fod yn bresennol a phleidleisio. Fel arfer nodir nifer y bobl y mae'n ofynnol i'w cael er mwyn ffurfio cworwm yn y ddogfen lywodraethol.

Ystyr **Deddf Cwmnïau** yw Deddf Cwmnïau 1985, fel y'i diwygiwyd.

Dogfen lywodraethol yw unrhyw ddogfen sy'n amlinellu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cwmni, yn rheolau, yn drawsgludiad, yn ewyllys, yn Siarter Frenhinol, yn Gynllun y Comisiynwyr, neu, yn achos apêl, telerau cyhoeddedig yr apêl sy'n gwahodd rhoddion.

Dyletswyddau **ymddiriedol** yw'r rheiny y mae'n rhaid eu cyflawni er lles buddiolwyr yr elusen.

Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol, beth bynnag fo'u teitl. Er enghraifft, yn achos cymdeithas anghorfforedig, y pwyllgor gwaith neu'r pwyllgor rheoli yw ei hymddiriedolwyr elusen ac yn achos cwmni elusennol, y cyfarwyddwyr yw ei ymddiriedolwyr elusen.

Atodiad C - Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

Sefydliadau

- *Y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr*

Rhennir cyfrifoldeb am elusennau rhwng ein tair swyddfa. Cewch wybodaeth bellach o'r Comisiwn yn:

Llundain
Harmsworth House
13-15 Bouverie Street
Llundain
EC4Y 8DP

Lerpwl
2ail Lawr
20 Kings Parade
Queens Dock
Lerpwl
L3 4DQ

Swyddfa Cymru
8fed Llawr
Ty Clarence
Clarence Place
Casnewydd
NP19 7AA

Taunton
Woodfield House
Tangier
Taunton
Gwlad yr Haf
TA1 4BL

Ffôn: 0870 3330123
Minicom: 0870 3330125
E-bost: feedback@charitycommission.gsi.gov.uk
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

- *Canolfan Datrys Anghydfodau Effeithiol (CEDR)*

Mae CEDR yn cael ei gydnabod fel prif ddarparwr gwasanaethau datrys anghydfodau amgen.

Exchange Tower
1 Harbour Exchange Square
Llundain
E14 9GB

Ffôn: 020 7536 6000
Gwefan: www.cedr.co.uk

- *Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO)*

Mae gwybodaeth ar gael ar godi arian a materion rheoli ac amrywiaeth o wasanaethau cymorth cyffredinol. Mae NCVO yn bwriadu cyhoeddi Good Membership Guide yn nes ymlaen y flwyddyn hon.

Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol
Regent's Wharf
8 All Saints Street
Llundain
N1 9RL

Ffôn: 020 7713 6161
E-bost: ncvo@ncvo-vol.org.uk
Gwefan: www.ncvo-vol.org.uk, www.askncvo.org.uk

Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

- *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)*

Mae WCVA yn helpu elusennau a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Tŷ Baltig
Mount Stuart Square
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5FH

Ffôn: 0870 607 1666
E-bost: help@wcva.org.uk
Gwefan: www.wcva.org.uk

- *Cymdeithas Diwygio Etholiadol*

Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn sefydliad aelodaeth sy'n ymgyrchu dros welliannau mewn democratiaeth, yn arbennig trwy ddefnyddio systemau pleidleisio gwell.

6 Chancel Street
Llundain
SE1 0UU

Ffôn: 020 7928 1622
Gwefan: www.electoral-reform.org.uk

- *Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol (NACVS)*

Mae rhwydwaith NACVS yn darparu ystod eang o wybodaeth a chymorth i elusennau.

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol
3ydd Llawr Arundel Court
177 Arundel Street
Sheffield
S1 2NU

Ffôn: 0114 278 6636
E-bost: nacvs@nacvs.org.uk
Gwefan: www.nacvs.org.uk

Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

- *Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO)*

Mae ACEVO yn darparu adnoddau a gwybodaeth arfer dda am faterion y sector.

83 Victoria Street
Llundain
SW1H OHW

Ffôn: 0845 345 8481
E-bost: info@acevo.org.uk
Gwefan: www.acevo.org.uk

- *Cymdeithas Sefydliadau Elusennol (ACF)*

Mae ACF yn hybu ac yn cefnogi gwaith ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n rhoi grantiau.

2 Plough Yard
Shoreditch High Street
Llundain
EC2A 3LP

Ffôn: 020 7422 8600
Gwefan: www.acf.org.uk

- *Directory of Social Change (DSC)*

Mae'r Cyfeirlyfr yn hybu newid cymdeithasol positif ac yn darparu ystod eang o adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr.

Llundain
24 Stephenson Way
Llundain
NW1 2DP

Lerpwl
Federation House
Hope Street
Lerpwl
L1 9BW

Ffôn (llyfrau): 020 7209 5151
Ffôn (hyfforddiant a digwyddiadau): Llundain 020 7209 4949 a Lerpwl 0151 708 0117
Gwefan: www.dsc.org.uk

Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

- *Gwasanaeth Cyflafareddu a Chymodi (ACAS)*

Mae ACAS yn sefydliad sydd wedi'i ymrwymo i atal a datrys anghydfodau cyflogaeth.

Prif Swyddfa
Brandon House
180 Borough High Street
Llundain
SE1 1LW

Ffôn: 020 7210 3613
Gwefan: www.acas.org.uk

- *Mediation UK*

Mae Mediation UK yn gorff gwirfoddol cenedlaethol sy'n ymrwymedig i ddatblygu dulliau o ddatrys anghydfodau mewn cymunedau.

Alexander House
Telephone Ave
Bryste
BS1 4BS

Ffôn: 0117 904 6661
Gwefan: www.mediationuk.org.uk

- *Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau*

Mae'r elusen hon yn cynnig cymorth i'r ddwy ochr trwy annog a datblygu grwpiau rhwydwaith ymddiriedolwyr hunan-gymorth gan ddarparu gwasanaeth ymgynghori a mentora cost-effeithiol ymysg cyfoedion.

Blwch SP 33834
Llundain
N8 9XF

Ffôn: 0167 254 1781
E-bost: info@trusteenetworks.org.uk

- *Sefydliad Codi Arian*

Nod y Sefydliad Codi Arian yw hybu arferion codi arian o'r safon uchaf.

Market Towers
1 Nine Elms Street
Llundain
SW8 5NQ

Ffôn: 020 7627 3436
E-bost: enquiries@institute-of-fundraising.org.uk
Gwefan: www.institute-of-fundraising.org.uk

- *Sefydliad Cymorth Elusennau (CAF)*

Mae CAF yn helpu sefydliadau dielw yn y DU a thramor i gynyddu, rheoli a gweinyddu eu hadnoddau.

Kings Hill
West Malling
Caint
ME19 TA

Ffôn: 01732 520000
Gwefan: www.cafonline.org

- *Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig (EMF) a Chyngor Sefydliadau Gwirfoddol Lleiafrifoedd Ethnig (CEMVO)*

Mae EMF a CEMVO yn datblygu adnoddau ar gyfer sefydliadau croenddu a lleiafrif ethnig, gan gynnwys cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddiant a chofrestr ymddiriedolwyr.

Boardman House
64 Broadway
Stratford
Llundain
E15 1NG

Ffôn: 020 84320 307
E-bost: enquiries@emf-cemvo.co.uk
Gwefan: www.emf-cemvo.co.uk

Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

- *Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig (ICSA)*

Mae ICSA yn darparu gwybodaeth ac arweiniad arfer dda ar faterion llywodraethu sy'n effeithio ar y sector. Mae cofrestr ymddiriedolwyr ganddynt hefyd sydd ar gael i elusennau sy'n chwilio am ymddiriedolwyr newydd.

16 Par Crescent
Llundain
W1B 1AH

Ffôn: 020 7580 4741
E-bost: info@icsa.co.uk
Gwefan: www.icsa.org.uk

- *Tollau Tramor a Chartref EM*

Am wybodaeth sy'n ymwneud ag ymholiadau TAW edrychwch ar eich cyfeirlyfr ffôn lleol am y manylion cyswllt. Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael o:

Ffôn: 0845 0109000
Gwefan: www.hmce.gov.uk

Cyfnodolion, cylchgronau a phapurau newydd

- *Charity Finance*

3 Rectory Grove
Llundain
SW4 0DX

Gwefan: www.charityfinance.co.uk
Tanysgrifiadau ffôn: 020 7819 1200
E-bost: rcoley@charityfinance.co.uk

- *Charities Management*

Mitre House Publishing
The Clifton Centre
110 Clifton Street
Llundain
EC2A 4HD

Tanysgrifiadau ffôn: 020 7729 6644

Adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr

- *Charity Times*

Tanysgrifiadau ffôn: 020 7426 0496/0123
Gwefan: www.charitytimes.com

- *The Guardian/Society*

Mae'r adran Society yn rhifyn dydd Mercher The Guardian yn arbennig o ddefnyddiol.

Gwefan: www.SocietyGuardian.co.uk

- *Third Sector*

Gwefan: www.thirdsector.co.uk
Tanysgrifiadau ffôn: 020 8606 7500
E-bost: subscriptions@haynet.com

Atodiad Ch - Llyfryddiaeth

Adirondack. S et al., (2001) *The Voluntary Sector Legal Handbook*, 2ail Argraffiad. Directory Of Social Change. Llundain

Y Gwir Anrhydeddus. Blunkett, David, AS., Ysgrifennydd Cartref (Mehefin 2003), *"Civil Renewal: A New Agenda"*, Araith yn Narlith Goffa CSV Edith Kahn. Llundain

Bremridge.T., (2003) *Outsourcing the servicing of supporters*. Rheoli Elusennau Hydref 2003

Canavon. M., a Smith. P., (2001) *Representing the People - Democracy and Diversity*. LGA Publications. Llundain.

Comisiwn Elusennau, (2003) *Y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddio*

Comisiwn Elusennau, (2002) *Elusennau a Phartneriaid Masnachol* (RS2)

Comisiwn Elusennau, (2003) *Cydweithio a Chyfuniadau* (RS4)

Comisiwn Elusennau, (2000) *Elusennau a Chyfarfodydd* (CC48)

Comisiwn Elusennau, (2003) *Memorandwm ac Erthyglau Cwmni Enghreifftiol ar gyfer Cwmni Elusennol* (GD1)

Comisiwn Elusennau, (1998) *Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer Cymdeithas Anghorfforedig Elusennol* (GD3)

Comisiwn Elusennau, (2000) *Deddf Elusennau Adloniadol 1958* (RR4)

Comisiwn Elusennau, (2002) *Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau* (CC3)

Comisiwn Elusennau, (2002) *Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr* (RS1)

Comisiwn Elusennau, (2000) *Cynnwys Defnyddwyr: Buddiolwyr sy'n troi'n ymddiriedolwyr* (CC24)

Deakin. N., (2001) *In search of Civil Society*. Palgrave. Llundain

Hayes. D., a Slater. A., (2003) From *"social club"* to *"integrated membership scheme": Developing membership schemes strategically*. International Journal of Non Profit and Voluntary Sector Marketing. Cyfrol 8 Rhif 1 Chwefror 2003

Jas.P., et al (2002) *The UK Voluntary Sector Almanac*. NCVO Publications. Llundain

Morris. D., (2003) *Disputes in the Charitable Sector*. Uned y Gyfraith Elusennau, Prifysgol Lerpwl.

NCVO (mewn partneriaeth â'r Ganolfan Datrys Anghydfodau Effeithiol) (2003) *You're not listening to me*. NCVO. Llundain

Picarda. H., (1995) *The law and practice relating to charities*, 2ail Argraffiad., Butterworths, Llundain.

Powell. F., a Guerin. D., (1999) *Civil Society and Active Citizenship: The role of the voluntary sector*. Association for Voluntary Action Research in Ireland.

Pharaoh. C., (2003) *Charity Trends 2003* 24ain Argraffiad. CAF, Llundain

Swyddfa'r Cabinet, (2002) *Private action, Public Benefit: A Review of Charities and the Wider Not-For-Profit Sector*

Travers.T., (2003) *A trip down memory lane*. Public Finance Gorffennaf 18-24

Warburton. J., (1995) *Tudor on Charities*, 8fed Argraffiad., Sweet & Maxwell. Llundain.

Warburton. J., (1992) *Unincorporated Associations; Law & Practice* 2ail Argraffiad. Sweet & Maxwell. Llundain

WCVA, (2002) *Faith and hope don't run charities (trustees do): a practical guide to voluntary members of management committees*. Caerdydd.

Wilson. A., (1993) *Friendly Societies - A Guide to the New Law* (1993) Butterworths, Llundain.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r holl elusennau hynny a roddodd o'u hamser i gyfrannu at y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Dr Helen Cameron a'r Athro Jean Warburton am eu cymorth a'u gwybodaeth werthfawr.

Nodiadau